

Atodiad A - Dyletswydd Gonestrwydd

Proses Adolygu Sbardunau

A yw'r corff GIG yn darparu gofal neu a yw wedi darparu gofal i'r defnyddiwr gwasanaeth?

DS: Mae corff GIG yn gyfrifol am gydymffurfio â'r Ddyletswydd Gonestrwydd mewn cysylltiad â'r holl ofal iechyd mae'n ei ddarparu. Pan fydd Bwrdd Iechyd yn ymrwmo i drefniadau gyda darparwr gofal sylfaenol drwy contract neu drefniant i ddarparu gwasanaethau'r GIG, y darparwr gofal sylfaenol sy'n rhwym wrth y ddyletswydd. Yn yr un modd, os bydd Bwrdd Iechyd yn ymrwmo i drefniadau gydag Ymddiriedolaeth GIG i ddarparu gwasanaethau, yr Ymddiriedolaeth GIG sy'n rhwym wrth y ddyletswydd

Ar gyfer gwasanaethau wedi eu comisiynu, gweler Atodiad A1



A yw'r defnyddiwr gwasanaeth y mae gofal iechyd yn cael neu wedi cael ei ddarparu iddo, wedi dioddef canlyniad andwyol?

h.y. A gafodd y defnyddiwr gwasanaeth unrhyw niwed annisgwyl neu anfwriadol sy'n fwy nag ychydig o niwed, neu a yw'r amgylchiadau'n golygu y gallai ddioddef unrhyw niwed annisgwyl neu anfwriadol sy'n fwy nag ychydig o niwed yn y dyfodol?



Nid yw Dyletswydd Gonestrwydd yn berthnasol.

Dylai'r penderfyniad hwn gael ei gadarnhau'n briodol a'i gofnodi'n glir ar gofnod y digwyddiad.



Gweler Atodiad B
Fframwaith lefelau niwed

A oedd y gofal iechyd a ddarparwyd yn ffactor, neu y gallai wedi bod yn ffactor, a achosodd i'r defnyddiwr gwasanaeth ddioddef y canlyniad gwael?



Nid yw Dyletswydd Gonestrwydd yn berthnasol.

Dylai'r penderfyniad hwn gael ei gadarnhau'n briodol a'i gofnodi'n glir ar gofnod y digwyddiad.

Mae Dyletswydd Gonestrwydd yn berthnasol.

Dylid dilyn y weithdrefn Dyletswydd Gonestrwydd, fel y nodir yn Atodiad C.

DS: Os yw'r hysbysiad uniongyrchol yn hwyrach na 30 diwrnod gwaith ar ôl y dyddiad y daeth y corff GIG yn ymwybodol o'r canlyniad andwyol hysbysadwy, dylid esbonio'r rheswm pam. Nid yw hyn yn golygu bod gan gorff y GIG 30 diwrnod i ddarparu'r hysbysiad uniongyrchol gan y dylid ei gyflwyno cyn gynted â phosibl.


Atodiad A1 Proses Adolygu Sbardunau

Lle mae gwasanaethau'n cael eu comisiynu

A oes corff GIG wedi ymrwymo i drefniant i ofal iechyd gael ei ddarparu yng Nghymru gan rywun heblaw corff GIG arall?

e.e. A oes Bwrdd Iechyd wedi ymrwymo i drefniant gyda darparwr annibynnol ar gyfer darparu gwasanaethau iechyd yng Nghymru?

DS: Dim ond os yw'r gofal iechyd yn cael ei ddarparu yng Nghymru fel rhan o wasanaethau'r GIG yng Nghymru y mae'r Ddyletswydd Gonestrwydd yn berthnasol. Er enghraifft, os bydd Bwrdd Iechyd yn ymrwymo i drefniadau gyda darparwr yn Lloegr (boed hwnnw'n gorff GIG yn Lloegr neu'n ddarparwr annibynnol yn Lloegr) ar gyfer darparu gwasanaethau gofal iechyd, y Ddyletswydd Gonestrwydd yn Lloegr a fydd yn berthnasol mewn perthynas â'r gofal hwnnw a'r darparwr yn Lloegr fydd yn gyfrifol am gydymffurfio â'r ddyletswydd yn Lloegr.



DS: Os yw'r hysbysiad uniongyrchol yn hwyrach na 30 diwrnod gwaith ar ôl y dyddiad y daeth y corff GIG yn ymwybodol o'r canlyniad andwyol hysbysadwy, dylid esbonio'r rheswm pam. Nid yw hyn yn golygu bod gan gorff y GIG 30 diwrnod i ddarparu'r hysbysiad uniongyrchol gan y dylid ei gyflwyno cyn gynted â phosibl.

Atodiad B - FFRAMWAITH LEFELAU NIWED

Canllaw yn unig yw'r rhestr isod, yn hytrach na rhestr cwbl gynhwysfawr.

Lefel y niwed	Digwyddiadau <u>na fyddent</u> yn sbarduno'r weithdrefn ddyletswydd gonestrwydd
Dim	<p>Unrhyw ddigwyddiad diogelwch cleifion a allai fod wedi achosi niwed ond na arweiniodd at unrhyw niwed.</p> <p>e.e. Oedi ag apwyntiad, ond dim sgil-ffaith o ran iechyd.</p> <p>e.e. Claf yn cwmpo – heb ddioddef niwed neu nid oedd angen ymyriadau ychwanegol.</p> <p>e.e. Achos y bu ond y dim iddo ddigwydd – lle sylwyd ar y potensial am niwed a chymryd camau i osgoi ailadrodd y niwed.</p>
Niwed bach/ychydig o niwed	<p>Unrhyw ddigwyddiad diogelwch claf a arweiniodd at gynnydd bach mewn triniaeth ac a achosodd niwed bach i un neu ragor o bobl a oedd yn derbyn gofal a gyllidir gan y GIG.</p> <p>Gallai ychydig o gynnydd mewn triniaeth gynnwys:</p> <p>e.e. Cymorth cyntaf, therapi ychwanegol, meddyginiaeth neu adsefydlu</p> <p>e.e. Claf yn cwmpo – sy'n golygu bod angen arsylwadau arwyddion bywyd a/neu fân driniaeth</p> <p>e.e. 1 – 3 diwrnod o gynnydd yn hyd yr arhosiad.</p>
	<p>Pryd mae'r ddyletswydd gonestrwydd yn berthnasol?</p> <p>PWYSIG- mae'r adran hon yn nodi'r amodau y mae'n rhaid eu bodloni er mwyn i'r ddyletswydd gonestrwydd fod yn gymwys. Rhaid gweithio drwy'r rhain wrth gymhwyso'r fframwaith niwed.1</p> <p>Sbardunir y ddyletswydd o ran corff GIG os yw'n ymddangos i'r corff bod y ddau amod canlynol yn cael eu bodloni:</p> <p>(1) Yr amod cyntaf yw bod yr un (y "defnyddiwr gwasanaeth") y mae'r corff yn darparu neu wedi darparu gofal iechyd iddo wedi dioddef canlyniad andwyol.</p> <p>(2) Yr ail amod yw bod darparu'r gofal iechyd yn ffactor, neu y gall fod wedi bod yn ffactor, a achosodd i'r defnyddiwr gwasanaeth ddioddef y canlyniad hwnnw.</p> <p>Mae defnyddiwr gwasanaeth i'w drin fel pe bai wedi dioddef canlyniad andwyol os yw'r defnyddiwr yn profi mwy nag ychydig o niwed annisgwyl neu anfwriadol neu os yw'r amgylchiadau yn golygu y gallai brofi niwed o'r fath.</p>

	<p>Mae modd sbarduno'r ddyletswydd oherwydd cam penodol a gymerwyd gan gorff GIG wrth ddarparu gofal iechyd neu oherwydd ei fod wedi methu cymryd cam penodol.</p> <p>Nid yw'r ddyletswydd yn cael ei sbarduno pan fydd y niwed yn gysylltiedig â chwrs naturiol salwch neu gyflwr isorweddol y defnyddiwr gwasanaeth.</p>
--	---

[1](#) I gael rhagor o arweiniad ar benderfynu a yw'r ddyletswydd yn berthnasol, edrychwch ar Atodiad A ac Atodiad H a Phenodau 1 a 2 y Canllawiau Statudol

<p>Niwed cymedrol annisgwyl neu anfwriadol</p>	<p>Mae enghreifftiau o lefelau annisgwyl neu anfwriadol o niwed cymedrol a mathau o ddigwyddiadau a fyddai'n sbarduno'r weithdrefn dyletswydd i fod yn ddidwyll yn cynnwys:</p> <p>Niwed cymedrol –</p> <p>(a) cynnydd cymedrol mewn triniaeth a</p> <p>(b) Niwed sylweddol ond nid parhaol.</p> <p>Gallai cynnydd cymedrol mewn triniaeth gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Derbyn/aiddderbyn heb ei gynllunio, • Dychwelyd yn annisgwyl i'r feddygfa, • Cynyddu arhosiad rhwng 4 a 15 diwrnod, • Canslo/gohirio triniaeth, • Trosglwyddo i ardal triniaeth/gofal arall - er enghraifft, gofal eilaidd neu ofal dwys o ganlyniad i'r digwyddiad. <p>Dyma rai enghreifftiau o'r mathau o ddigwyddiadau a fyddai'n sbarduno'r weithdrefn ddyletswydd gonestrwydd:</p> <p>Disgrifiad o'r digwyddiad – derbyn heb ei gynllunio. Gwelwyd y claf gan aelod o'r tîm Iechyd Meddwl cymunedol; sy'n methu â chydabod neu weithredu ar dystiolaeth o fethiant i gydymffurfio â meddyginiaeth/methiant i gadw at sesiynau triniaeth/mynegi meddyliau hunanladdol.</p> <p>Lefel y niwed o ganlyniad - y claf yn niweidio'i hun, gan achosi niwed cymedrol sy'n golygu bod angen ei dderbyn i'r ysbyty.</p> <p>Disgrifiad o'r digwyddiad - Llawdriniaeth wedi ei chanslo. Lefel y niwed o ganlyniad – Yn arwain at ddirywiad ac arhosiad hirach yn yr ysbyty > 4 diwrnod ac oedi o ran adferiad.</p> <p>Disgrifiad o'r digwyddiad - Claf yn cael opioidau er bod hyn wedi'i gofnodi fel alergedd. Lefel y niwed o ganlyniad – Yn arwain at y claf yn dioddef adwaith sylweddol sy'n golygu bod angen triniaeth frys.</p>
--	---

Disgrifiad o'r digwyddiad - Cafodd mam waedlif sylweddol ar ôl genedigaeth anodd, a bu oedi cyn cael gwaed ar gyfer trallwysiad.

Lefel y niwed o ganlyniad – Yn arwain at drosglwyddo'r fam i'r uned ddibyniaeth uchel o ganlyniad i'r gwaedlif ôl-enedigol a'r oedi wrth gael gwaed ar gyfer y trallwysiad, gan olygu bod ei chyfnod o wella wedi para'n hirach.

Mae'r defnyddiwr gwasanaeth yn profi niwed seicolegol:

Niwed seicolegol – yn golygu cyflwr seiciatrig neu waethygu cyflwr seiciatrig presennol am gyfnod di-dor o 28 diwrnod o leiaf.

Er enghraifft:

Diffyg cydymffurfio â meddyginiaeth wrthseicotig gan ddefnyddiwr gwasanaeth a dderbyniwyd yn anffurfiol, lle cafodd meddyginiaeth ei chuddio o olwg staff gofal iechyd, gan arwain at gynnydd mewn rhithweledigaethau clywedol a synhwyrdd a gofid, sy'n golygu bod angen ymyrraeth a thriniaeth.

DS: Dylid defnyddio'r amserlen uchod fel mesur yn unig. Rhaid canolbwyntio ar lefel y niwed anfwriadol neu annisgwyl.

Mae rhagor o enghreifftiau manwl o astudiaethau achos ar gael yn Atodiad H.

Niwed difrifol annisgwyl neu anfwriadol

Dyma rai enghreifftiau o lefelau annisgwyl neu anfwriadol o niwed difrifol a mathau o ddigwyddiadau a fyddai'n sbarduno'r weithdrefn dyletswydd gonestrwydd:

Byddai niwed difrifol yn cynnwys:

- Nam neu niwed parhaol i iechyd neu niwed sy'n arwain at analluogrwydd, anabledd neu golli potensial i wella.
- Lleihau gweithrediad corffol, synhwyrdd, echddygol, ffisiolegol neu ddeallusol yn barhaol, y gellid bod wedi'i osgoi, gan gynnwys tynnu'r aelod neu'r organ anghywir neu niwed i'r ymennydd.
- Cynyddu'r arhosiad >15 diwrnod

Dyma rai enghreifftiau o'r mathau o ddigwyddiadau a fyddai'n sbarduno'r weithdrefn ddyletswydd gonestrwydd:

Disgrifiad o'r digwyddiad – colli potensial i wella. Oedi â thriniaeth thrombolytig neu AHP.

Lefel y niwed o ganlyniad – yn arwain at golli'r gallu i gerdded neu siarad, sy'n barhaol.

Disgrifiad o'r digwyddiad - Mae'r claf yn dioddef adwaith niweidiol i feddyginiaeth y cofnodwyd ei fod yn cael adwaith alergaidd iddi.

Lefel y niwed o ganlyniad – Yn arwain at y claf yn dioddef niwed i'r ymennydd neu niwed parhaol arall i organ.

Disgrifiad o'r digwyddiad – Claf yn dioddef trydylliad o'r coluddyn yn ystod llawdriniaeth.

Lefel y niwed o ganlyniad – Yn arwain at y claf yn gorfod cael colostomi a/neu lawdriniaethau dilynol.

Disgrifiad o'r digwyddiad - Ni chafodd y claf belydr-x dilynol wedi ei gynllunio.

Lefel y niwed o ganlyniad – Canfuwyd wedyn bod gan y claf ganser yr ysgyfaint. Roedd y siawns o oroesi wedi lleihau'n sylweddol o ganlyniad i'r oedi o 18 mis cyn cynnal y pelydr-x dilynol.

Disgrifiad o'r digwyddiad - Claf benywaidd yn dweud bod claf arall wedi ymosod yn rhywiol arni mewn uned ddiogel ganolig sy'n arwain at ddwysáu symptomau'n ddifrifol, PTSD cronig a digwyddiadau hunan-niweidiol gydag ymdrechion i ladd ei hun drwy grogi a thorri.

Lefel y niwed o ganlyniad - nid yw claf byth yn gwella o'r digwyddiad ac mae'r ymdrechion i ladd ei hun yn golygu bod angen lefel uchel uchel o oruchwyliaeth gydol ei hoes.

Mae rhagor astudiaethau achos manwl ar gael yn Atodiad H.

Marwolaeth annisgwyl neu anfwriadol

Dyma rai enghreifftiau o farwolaethau annisgwyl neu anfwriadol a mathau o ddigwyddiadau a fyddai'n sbarduno'r weithdrefn dyletswydd gonestrwydd:

Mae enghreifftiau o'r mathau o ddigwyddiadau a fyddai'n sbarduno'r weithdrefn ddyletswydd gonestrwydd yn cynnwys:

Disgrifiad o'r digwyddiad – Trallwyso'r math anghywir o waed.

Lefel y niwed o ganlyniad – Yn arwain at fethiant aml-organ ac ataliad angheuol ar y galon.

Disgrifiad o'r digwyddiad - Mae'r claf yn dioddef adwaith niweidiol i feddyginiaeth y cofnodwyd ei fod yn cael adwaith alergaidd iddi.

Lefel y niwed o ganlyniad - Yn arwain at anaffylacsis difrifol a marwolaeth ddilynol.

Disgrifiad o'r digwyddiad - Claf yn dweud bod ganddo boenau yn ei frest a gofynnir iddo aros mewn clinig/practis/adran achosion brys.

Lefel y niwed o ganlyniad – Mae'r claf yn dioddef cnawdnychiant myocardiaidd angheuol wrth aros, ac mae'n marw wedyn.

Disgrifiad o'r digwyddiad – Yn yr adran frys mae'r claf yn arddangos gofid aciwt a syniadaeth hunanladdol, ond ar ôl aros am nifer o oriau i gael ei weld mae'n dianc.

Lefel y niwed o ganlyniad - Claf yn syrthio o bont leol ac yn marw o'i anafiadau

Mae rhagor astudiaethau achos manwl ar gael yn Atodiad H.

Atodiad C - Y Weithdrefn Dyletswydd Gonestrwydd

Mae'r digwyddiad wedi cael ei adrodd a'i gofnodi drwy Datix Cymru a'r cofnod gofal cleifion. Cynhelir adolygiad o'r digwyddiad a deuir i gytundeb, ar sail yr wybodaeth sydd ar gael bryd hynny, bod yr amodau a nodir yn Atodiad A wedi cael eu bodloni a bod Dyletswydd Gonestrwydd yn berthnasol.

Hysbysiad

Ar ôl dod yn ymwybodol gyntaf bod y ddyletswydd wedi cael ei sbarduno (sef y dyddiad dechrau ar gyfer y Dyletswydd Gonestrwydd), rhaid i'r corff GIG roi gwybod i'r defnyddiwr gwasanaeth/neu'r un sy'n gweithredu ar ei ran.

DS: Os yw'r hysbysiad uniongyrchol yn hwyrach na 30 diwrnod gwaith ar ôl y dyddiad y daeth y corff GIG yn ymwybodol o'r canlyniad andwyol hysbysadwy, dylid darparu a chofnodi esboniad o'r rheswm, ond nid yw hyn yn golygu bod gan gyrff GIG fis i roi'r hysbysiad.

Dylai'r hysbysiad cychwynnol gael ei wneud '**yn uniongyrchol**'

(Mae gan gyrff y GIG ddisgresiwn ynghylch pa ddull o gyfathrebu uniongyrchol sydd fwyaf priodol). Fodd bynnag, dylid ystyried yr hyn sydd orau gan y defnyddiwr gwasanaeth/yr unigolyn sy'n gweithredu ar ei ran, a'i flaenoriaethu, yn ogystal â ffactorau megis difrifoldeb y niwed a achoswyd.

GALL 'YN UNIONGYRCHOL' OLYGU:
Dros y ffôn, drwy alwad fideo neu wyneb yn wyneb

Pwrpas yr hysbysiad uniongyrchol

- Cydnabod beth sydd wedi digwydd
- Cynnig ymddiheuriad (gweler Atodiad E).
- Egluro pa wybodaeth oedd yn hysbys bryd hynny am yr hyn sydd wedi digwydd.
- Egluro'r camau nesaf o ran beth fydd yn digwydd nesaf. (gweler Atodiad F).
- Cynnig cefnogaeth (gweler Atodiad D).
- Darparu manylion y pwynt cyswllt.

Unwaith y bydd hysbysiad uniongyrchol wedi ei wneud, rhaid rhoi **hysbysiad ysgrifenedig** hefyd i'r defnyddiwr gwasanaeth/unigolyn sy'n gweithredu ar ei ran **o fewn pump diwrnod gwaith ar ôl diwrnod yr hysbysiad uniongyrchol.**

Pwrpas yr hysbysiad ysgrifenedig (crynodeb ysgrifenedig o'r hyn a ddywedwyd yn yr hysbysiad uniongyrchol)

- Ailddatgan yr ymddiheuriad llafar (gweler Atodiad E).
- Rhannu unrhyw wybodaeth gychwynnol am yr hyn sy'n hysbys am yr hyn sydd wedi digwydd.
- Egluro'r camau a'r ymholiadau pellach y bydd y corff GIG yn ymgymryd â nhw (gweler Atodiad F).
- Rhoi manylion y pwynt cyswllt.
- Rhoi manylion unrhyw gymorth sydd ei angen (gweler Atodiad D).

DS: Trowch at bennod 4 y Canllawiau Dyletswydd Gonestrwydd i weld yr holl ffactorau mae'n rhaid rhoi sylw iddynt.

ATODIAD D – Cymorth i'r defnyddiwr gwasanaeth/ y sawl sy'n gweithredu ar ei ran

Mae'n bwysig cydnabod bod effaith seicolegol yn aml i'r defnyddiwr gwasanaeth / y person sy'n gweithredu ar ei ran, a hynny ar ben y niwed yn sgil y gofal iechyd sy'n gysylltiedig â'r canlyniad neu'r digwyddiad niweidiol hysbysadwy. Mae'r ffordd y caiff defnyddwyr gwasanaethau eu cefnogi drwy'r broses hon yn cael effaith allweddol ar allu'r defnyddiwr gwasanaeth/y person sy'n gweithredu ar ei ran i brosesu'r hyn sydd wedi digwydd.

Mae cynnig manylion gwasanaethau cymorth i'r defnyddiwr gwasanaeth/y person sy'n gweithredu ar ei ran yn rhan o'r broses hysbysu 'uniongyrchol', mewn perthynas â'r digwyddiad ei hun ac wrth gyfathrebu â nhw am y digwyddiad a thrwy gydol proses y weithdrefn dyletswydd gonestrwydd.

Bydd y math o gefnogaeth yn amrywio yn ôl pob sefyllfa, ond gallai gynnwys:

- caniatáu amser a chynnig clust i wrando ar y defnyddiwr gwasanaeth neu'r person sy'n gweithredu ar ei ran
- addasiadau amgylcheddol i rai ag anabledd corfforol neu anabledd arall;
- cyfeirio at wasanaethau iechyd meddwl;
- defnyddio a threfnu gwasanaethau cyfieithu lleol;
- cefnogaeth eiriolwr, neu ffynonellau eraill o gymorth a chynghor annibynnol fel; AvMA (Action against Medical Accidents) neu Gofal mewn Galar Cruse;
- Gwasanaethau profedigaeth neu ofal wedi marwolaeth y bwrdd iechyd neu'r ymddiriedolaeth GIG;
- Cefnogaeth aelodau eraill o'r teulu;
- Cefnogaeth a chyfranogiad y meddyg teulu lle bo'n briodol ac os yw wedi cytuno i fod yn rhan o'r broses.

Manylion cyswllt defnyddiol:

- Eiriolwyr Iechyd Meddwl, MIND – www.mind.org.uk
- Llais – www.llaiscymru.org
- AvMA - www.avma.org.uk
- Gofal mewn Galar Cruse – www.cruse.org.uk
- Anabledd Cymru - <https://www.disabilitywales.org/?lang=cy>
- Comisiynydd y Gymraeg – www.comisiynyddygyymraeg.cymru
- Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol Pobl Ddall, RNIB – www.rnib.org.uk
- Race Council Cymru – racecouncilcymru.org.uk
- Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru – www.ombwdsmon.cymru
- Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru – www.comisiynyddph.cymru
- Canolfan Cydraddoldeb a Hawliau Dynol – www.equalityhumanrights.wales.nhs.uk
- Anabledd Dysgu Cymru - www.ldw.org.uk/cy/
- Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth - ico.org.uk/for-the-public
- Cynghor ar Bopeth – www.citizensadvice.org.uk/cymraeg/
- Comisiynydd Plant Cymru - www.complantcymru.org.uk
- Y Samariaid – www.samaritans.org/

ATODIAD D1 – Cymorth i'r staff sy'n rhan o'r weithdrefn Dyletswydd Gonestrwydd

Mae Rheoliadau'r Weithdrefn Gonestrwydd yn nodi bod rhaid darparu manylion gwasanaethau neu gymorth i aelod o staff sy'n cymryd rhan mewn canlyniad niweidiol hysbysadwy.

Y rhai sy'n rhan o'r digwyddiad

- Dylid cydnabod y bydd angen cymorth hefyd ar staff sy'n ymwneud â chanlyniad neu ddigwyddiad niweidiol hysbysadwy.
- Gall pob math o emosiynau ac ymatebion gael eu teimlo gan y staff hynny y gallai eu camau gweithredu neu eu diffyg gweithredu fod wedi bod yn rhan o'r gofal iechyd sy'n cael ei ddarparu i'r defnyddiwr gwasanaeth lle mae niwed wedi digwydd neu y gallai ddigwydd eto.
- Mae'n hanfodol bwysig bod rheolwyr llinell lleol yn ystyried lles aelodau'r tîm gofal iechyd a bod cymorth yn cael ei gynnig a'i ddarparu'n gynnar yn y weithdrefn a thrwy gydol y cyfnod ymchwilio.
- Mae'n hollbwysig cael ethos o dysgu o ddigwyddiadau a darparu amgylcheddau seicolegol ddiogel i drafod sut mae staff yn teimlo, fel y gallant adlewyrchu ar yr hyn sydd wedi digwydd a datblygu strategaethau i'w brosesu a'i ddeall.

Y rhai sy'n rhan o weithredu'r weithdrefn Dyletswydd Gonestrwydd:

- Mae'n hanfodol hefyd ystyried yr angen i gefnogi staff sy'n ymwneud â gweithredu'r weithdrefn dyletswydd gonestrwydd.
- Mae cyfleu newyddion anodd sy'n peri gofid emosiynol i ddefnyddwyr gwasanaethau neu bobl sy'n gweithredu ar eu rhan yn heriol iawn ac mae angen paratoad a chymorth digonol.
- Efallai y bydd angen y cymorth hwn cyn ac ar ôl i'r cyfathrebu uniongyrchol ddigwydd.
- Rôl y goruchwyliwr clinigol, yr uwch-glinigwr a'r rheolwr llinell yw sicrhau bod staff wedi'u paratoi'n ddigonol a'u bod yn cael digon o gefnogaeth drwy'r broses hon, gan rannu eu cyngor a'u profiad.

Cymorth i'r holl staff sy'n rhan o'r broses:

- Gall rheolwyr llinell lleol, goruchwyliwr clinigol, cydweithwyr Gweithlu a Iechyd Galwedigaethol a chynrychiolwyr Undebau Llafur gyfeirio staff at eu Gwasanaeth Llesiant Staff/Rhaglenni Iechyd Galwedigaethol/Cymorth i Staff
- Yn ogystal mae sawl gwasanaeth cymorth cenedlaethol ar gael drwy wefan Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) [1], megis Iechyd i Weithwyr Iechyd Proffesiynol (Canopi)[2], SilverCloud[3] a'r Samariaid[4].

- 1]AaGIC (2023) Cefnogaeth i'r Gweithlu. aagic.gig.cymru/cefnogaeth
- [2] Canopi (Iechyd i Weithwyr Iechyd Proffesiynol gynt) canopi.nhs.wales/cy/amdanom-ni
- [3] SilvercloudWales. <https://nhswales.silvercloudhealth.com/signup/>
- [4] Y Samariaid 2023 <https://www.samaritans.org/>

ATODIAD E - YMDDIHEURO'N YSTYRLON

Mae'n hollbwysig bod y defnyddiwr gwasanaeth/y person sy'n gweithredu ar ei ran yn cael ymddiheuriad diffuant yn amserol, a hwnnw'n glir ac wedi'i fynegi ag empathi. Y nod yw ymdrin â'r angen am wybodaeth, egluro beth sydd wedi digwydd a rhoi cyfle i'r unigolyn brosesu'r hyn sydd wedi digwydd mewn amgylchedd cefnogol.

Paratoi

Mae'n hanfodol cymryd amser i baratoi ar gyfer y cyfathrebu â'r defnyddiwr gwasanaeth/y person sy'n gweithredu ar ei ran ac unrhyw aelod o'r teulu. Cynlluniwch beth rydych chi'n mynd i'w ddweud a thrafod hyn gyda chydweithiwr neu rywun ar lefel uwch. Gwnewch yn siŵr bod digon o amser ac nad oes unrhyw beth yn tynnu eich sylw neu'n debygol o darfu arnoch. Mae bod yn 'bresennol' yn feddyliol a gallu canolbwyntio yn rhan bwysig iawn o'ch paratoadau. Meddyliwch hefyd am anghenion y defnyddiwr gwasanaeth/y person sy'n gweithredu ar ei ran – pa wybodaeth sydd ei hangen arnynt a sut a pha gefnogaeth sydd ei hangen arnynt? (Trowch at adran 7 o ganllawiau'r ddyletswydd gonestrwydd).

Beth sydd wedi digwydd (byddwch yn glir beth sy'n hysbys ac i'r gwrthwyneb), **Pwy** sydd yn y sefyllfa orau i ddarparu'r wybodaeth, **Pryd** yw'r adeg orau i wneud hyn a **Sut** rydych chi'n bwriadu ei wneud. Mae'n bwysig cydnabod mai pwrpas y broses ymchwilio yw sefydlu '**Pam** mae hyn wedi digwydd' ac nad yw fel arfer yn rhan o'r ymddiheuriad yn y cam cynnar hwn. Er hynny, mae'n gyffredin i bobl ofyn hyn ar y cam hwn. Mae'n iawn bod yn onest a dweud nad ydych chi'n siŵr ar hyn o bryd.

Cyflawni

Rydych yn rhoi 'newyddion drwg' i ddefnyddiwr gwasanaeth/unigolyn sy'n gweithredu ar ei ran, ac weithiau maent yn ymwybodol o niwed annisgwyl neu anfwriadol ond nid ydynt yn llwyr ymwybodol o'r amgylchiadau neu efallai nad ydynt yn ymwybodol o'r canlyniad niwed anfwriadol neu annisgwyl sydd wedi digwydd. Byddwch yn glir ac yn ffeithiol ac osgowch ddefnyddio jargon. Dechreuwch drwy gyflwyno pwy ydych chi a gwirio gyda phwy rydych chi'n siarad a phwy arall sy'n bresennol.

Eglurwch y rheswm pam eich bod yn siarad â nhw.

Rhowch wybod i'r defnyddiwr gwasanaeth am y niwed anfwriadol neu annisgwyl a'r hyn sy'n hysbys am y digwyddiad. Dangoswch fod dealltwriaeth o'r amgylchiadau a'r effaith ar y person, e.e. 'chawsoch chi ddim gwybod beth oedd yn digwydd' **Derbyniwch** a chydabyddwch beth ddylai fod wedi digwydd - 'Dylem fod wedi egluro'n union beth oedd yn mynd i ddigwydd i chi'.

ATODIAD E – YMDDIHEURO’N YSTYRLON (Parhad)

Ymddiheurwch yn ddidwyll gydag empathi, gan ddefnyddio iaith eich corff a geiriau’n ofalus i atgyfnerthu natur ddiffuant yr ymddiheuriad, e.e. Mae’n ddrwg gen i bod hyn wedi digwydd i chi / mae’n ddrwg iawn gen i am eich profiad / rwy’n ymddiheuro’n ddiffuant am y gofid a’r dioddefaint mae hyn wedi ei achosi i chi a’ch teulu.

Dylech **bersonoli’r** ymddiheuriad yn hytrach na mynegi gofid cyffredinol am y digwyddiad ar ran y sefydliad neu rywun arall – ond nid yw hyn yn golygu eich bod yn cymryd cyfrifoldeb personol.

Caniatewch amser i’r defnyddiwr gwasanaeth a’r rhai sy’n bresennol brosesu’r hyn rydych chi wedi ei ddweud. Gofynnwch iddynt a ydynt yn deall beth rydych chi wedi ei ddweud wrthyn nhw.

Gofynnwch iddynt a oes ganddynt unrhyw gwestiwn. Dangoswch barch at gwestiynau ac ymatebwch iddynt mewn ffordd sensitif.

Esboniwch gamau nesaf y drefn Dyletswydd Gonestrwydd – llythyr ysgrifenedig mewn pum diwrnod gwaith yn cadarnhau’r sgwrs heddiw a rhagor o wybodaeth am y broses sydd i’w defnyddio i adolygu’r digwyddiad.

Nid yw ymddiheuro yn gyfystyr â derbyn bai, beiusrwydd nac atebolrwydd cyfreithiol. Trowch at adran 7e y canllawiau i gael rhagor o fanylion.

Gall pobl sy’n cael y math hwn o newyddion ddangos y sbectrwm cyfan o ymatebion a rhaid i chi fod yn barod a chynllunio sut rydych chi’n mynd i ymateb i’r rhain. Gwnewch yn siŵr eich bod yn ddiogel a, lle bo hynny’n bosibl, mae bob amser yn ddefnyddiol cael cydweithiwr gyda chi.

Gorffennwch y sgwrs mewn ffordd sensitif gan ddod â phethau i ben yn naturiol, e.e. Mae’n wir ddrwg gen i bod hyn wedi digwydd i chi, ac rydw i’n mynd i ganfod beth ddigwyddodd a dod yn ôl atoch chi. Yn y cyfamser, fy manylion cyswllt/eich manylion cyswllt yw Mae croeso i chi gysylltu â fi os bydd gennych chi gwestiynau yn ystod y cyfnod hwn. Byddaf hefyd yn anfon llythyr yn nodi popeth mae angen i chi ei wybod am y drefn dyletswydd gonestrwydd a’r camau nesaf y byddwn ni’n eu cymryd.

Dogfennau

Yn unol â rheoliad 9 o Reoliadau’r Weithdrefn Gonestrwydd (Cymru) 2022, rhaid cadw cofnodion ysgrifenedig o’r defnydd o’r weithdrefn dyletswydd gonestrwydd, gan gynnwys yr ymddiheuriad. Dylai’r sgwrs hefyd gael ei chofnodi’n ofalus yng nghofnod gofal y claf ac yn y cofnod o’r digwyddiad drwy Datix Cymru fel bod eraill sy’n rhan o’r gofal clinigol neu o adolygu’r digwyddiad yn gallu gweld bod ymddiheuriad wedi’i roi.

Adnoddau

- 1) <https://resolution.nhs.uk/wp-content/uploads/2017/07/NHS-Resolution-Saying-Sorry-Final.pdf>
- 2) <https://mdujournal.themdu.com/issue-archive/issue-2/the-effective-apology>
- 3) <https://www.gmc-uk.org/ethical-guidance/ethical-guidance-for-doctors/candour---openness-and-honesty-when-things-go-wrong/being-open-and-honest-with-patients-in-your-care-and-those-close-to-them-when-things-go-wrong#saying-sorry>
- 4) <https://www.ombudsman.ie/guidance-for-service-providers/the-ombudsmans-guide-to-m/>
- 5) <https://www.spsso.org.uk/sites/spsso/files/csa/ApologyGuide.pdf>
- 6) [Bowie.P \(2020\) Safety and Improvement in Primary Care: The Essential Guide](#)
<https://doi.org/10.1201/9780429165351>

Atodiad F - Dyletswydd Gonestrwydd

Proses adolygu a chadw cofnodion

Prif bwrpas yr adolygiad yw penderfynu beth ddigwyddodd a pham, penderfynu beth y gellir ei wneud i atal ailadrodd a dysgu gwersi.

A yw Rheoliadau 2011 yn berthnasol?

YDYN

Rhaid ymchwilio i ddigwyddiad sy'n arwain at gymhwyso'r Ddyletswydd Gonestrwydd yn unol â Rheoliadau 2011 h.y. (yn unol â Gweithio i Wella)

NAC
YDYN


Ymchwilir i ddigwyddiadau yn unol â phrosesau ymchwilio i ddigwyddiadau darparwyr gofal iechyd eu hunain h.y. (NHSBT neu ymddiriedolaeth ambiwlans Lloegr sy'n darparu gofal o fewn Cymru)

Ym mhob achos, rhaid glynu wrth Reoliad 9 Rheoliadau Gweithdrefn Gonestrwydd (Cymru) 2023, sy'n ymwneud â chadw cofnodion. (Trowch at bennod 3 yn y canllawiau Gonestrwydd am ragor o fanylion).

DS: Dylid ystyried hefyd a ddylid rhoi gwybod i reoleiddiwr proffesiynol am y digwyddiad a'r hyn a sbardunodd y Ddyletswydd Gonestrwydd.

Atodiad F1 - Dyletswydd Gonestrwydd

Proses adolygu a chadw cofnodion



Atodiad G - Dyletswydd Gonestrwydd Adrodd, cyhoeddi a monitro

Darparwyr Gofal Sylfaenol - dyletswydd i adrodd

Rhaid i Ddarparwyr Gofal Sylfaenol baratoi adroddiad blynyddol ynghylch a yw'r Ddyletswydd Gonestrwydd wedi dod i rym mewn perthynas â gofal iechyd y GIG y maent wedi ei ddarparu.

Rhaid i'r adroddiad nodi a yw'r Ddyletswydd Gonestrwydd wedi dod i rym yn y flwyddyn adrodd, ac os ydyw:

- Nodi pa mor aml mae'r Ddyletswydd Gonestrwydd wedi cael ei gweithredu yn ystod y flwyddyn adrodd.
- Rhoi disgrifiad byr o'r amgylchiadau a arweiniodd at weithredu'r ddyletswydd.
- Nodi unrhyw gam sydd wedi cael ei gymryd gan y corff gyda golwg ar atal amgylchiadau tebyg rhag codi yn y dyfodol.

(gall gynnwys gwybodaeth arall)



Rhaid i **Ddarparwyr Gofal Sylfaenol** anfon yr adroddiad blynyddol at y **Bwrdd Iechyd Lleol** y mae'r adroddiad yn ymwneud ag ef erbyn 30 Medi bob blwyddyn.



Rhaid i'r **Bwrdd Iechyd Lleol** baratoi crynodeb o'r adroddiadau a dderbyniwyd gan y Darparwyr Gofal Sylfaenol. Rhaid i'r crynodeb -

- Nodi pa mor aml, yn ystod y flwyddyn adrodd, mae'r Ddyletswydd Gonestrwydd wedi dod i rym mewn perthynas â gofal iechyd a ddarparwyd ar ran y Bwrdd Iechyd Lleol gan Ddarparwr Gofal Sylfaenol.
- Rhoi disgrifiad byr o'r amgylchiadau a arweiniodd at weithredu'r ddyletswydd.
- Disgrifio unrhyw gam sydd wedi cael ei gymryd gan y Darparwr Gofal Sylfaenol gyda golwg ar atal amgylchiadau tebyg rhag codi yn y dyfodol.



Byrddau Iechyd Lleol fydd yn gyfrifol am gyhoeddi'r holl wybodaeth sy'n berthnasol i'r Ddyletswydd Gonestrwydd mewn cysylltiad â'i wasanaethau ei hun a'r gwasanaethau sy'n cael eu darparu gan wasanaethau Gofal Sylfaenol yn ei ardal.

Atodiad G1 - Dyletswydd Gonestrwydd Adrodd, cyhoeddi a monitro

Byrddau Iechyd Lleol, Ymddiriedolaethau GIG ac Awdurdodau Iechyd Arbennig: gofynion adrodd

Rhaid i Fyrddau Iechyd Lleol, Ymddiriedolaethau'r GIG ac Awdurdodau Iechyd Arbennig baratoi adroddiad blynyddol ar y Ddyletswydd Gonestrwydd.

Rhaid i'r adroddiad bennu a yw'r Ddyletswydd Gonestrwydd, yn ystod y flwyddyn adrodd, wedi dod i rym mewn perthynas â darparu gofal iechyd gan y corff. Rhaid i'r adroddiad –

- Nodi pa mor aml mae'r Ddyletswydd Gonestrwydd wedi cael ei gweithredu yn ystod y flwyddyn adrodd.
- Rhoi disgrifiad byr o'r amgylchiadau a arweiniodd at weithredu'r ddyletswydd.
- Nodi unrhyw gam sydd wedi cael ei gymryd gan y corff gyda golwg ar atal amgylchiadau tebyg rhag codi yn y dyfodol.

(gall gynnwys gwybodaeth arall)



Rhaid i **gyrff y GIG** gyhoeddi eu hadroddiadau Gonestrwydd erbyn 31 Hydref bob blwyddyn.



Cyfrinachedd

Ni ddylai'r adroddiad a gyhoeddir enwi –

- Unrhyw un y mae gofal iechyd yn cael ei ddarparu iddo neu wedi cael ei ddarparu iddo gan y corff neu ar ei ran, neu
- Unrhyw un sy'n gweithredu ar ran unigolyn o'r fath.

Yn ogystal, rhaid rhoi sylw i'r angen i osgoi cynnwys unrhyw wybodaeth a allai, er nad yw'n enwi'r unigolyn, olygu bod modd ei adnabod oherwydd yr amgylchiadau.



Monitro

Dylid integreiddio perchnogaeth ac atebolrwydd lleol ag adolygiadau cydymffurfio rheolaidd i'r fframweithiau llywodraethu presennol.

Bydd cydymffurfio â'r ddyletswydd yn rhan o'r materion sy'n cael eu hystyried gan Arolygiaeth Iechyd Cymru wrth arolygu ac adolygu'r GIG.

Bydd y gofynion adrodd blynyddol hefyd yn darparu gwybodaeth i'r cyhoedd a Llywodraeth Cymru am y ddyletswydd a fydd yn helpu i wneud y broses yn dryloyw.

DS: Trowch at bennod 8 o'r Canllawiau Dyletswydd Gonestrwydd am ragor o fanylion.

ATODIAD H – ENGHREIFFTIAU O ASTUDIAETHAU ACHOS

Enghreifftiau esboniadol yn unig yw'r isod ac ni fwriedir iddynt fod yn rhestr gynhwysfawr na chael eu cymryd fel cyfarwydddebau. Cyfrifoldeb pob un o gyrff y GIG yw rhoi prosesau gwneud penderfyniadau lleol ar waith sy'n ystyried, fesul achos, amgylchiadau unigol pob achos ac mae hyn yn cynnwys amgylchiadau a phrofiadau unigol pob defnyddiwr gwasanaeth dan sylw.

Mae'r astudiaethau achos canlynol yn enghreifftiau o sut y caiff cwestiynau'r rhestr wirio dyletswydd gonestrwydd eu defnyddio i ystyried a gaiff y ddyletswydd gonestrwydd ei sbarduno ai peidio.

Er mwyn i'r ddyletswydd gonestrwydd gael ei sbarduno, rhaid i'r ateb i bob un o'r tri chwestiwn yn y rhestr wirio fod yn gadarnhaol.

Achos 1: Fferyllfa Gymunedol

Mae'r disgrifiad o'r digwyddiad yr un fath drwy gydol y broses ond mae'r canlyniadau'n wahanol.

Cafodd fferyllfa bresgripsiwn am 28 o dabledi Loratadine 10mg (gwrth-histamin nad yw'n achosi syrthni), un i'w chymryd bob bore. Yn anfwriadol, rhoddodd y fferyllfa 28 o dabledi Lorazepam 1mg, un i'w chymryd bob bore. Mae'r feddyginiaeth a roddwyd yn cael ei defnyddio ar gyfer anhwylderau gorbryder, a gallai gael effaith dawelyddol. Nid oedd y defnyddiwr gwasanaeth yn ymwybodol ei fod wedi cael tabledi gwahanol i'r rhai a oedd ar y presgripsiwn.

Canlyniad 1: Syrthiodd y defnyddiwr gwasanaeth i gysgu gartref a cholli trip siopa gyda'i ffrindiau.

A sbardunir y ddyletswydd gonestrwydd?

- **A yw'r defnyddiwr gwasanaeth wedi cael niwed, neu a yw'r amgylchiadau'n golygu y gallai gael niwed, a oedd yn anfwriadol neu'n annisgwyl?**
Ydy. Rhoddwyd y feddyginiaeth anghywir i'r defnyddiwr gwasanaeth yn anfwriadol.
- **A yw'r niwed yn fwy nag ychydig o niwed?**
Nac ydy. Syrthiodd y defnyddiwr gwasanaeth i gysgu gartref a cholli trip siopa gyda'i ffrindiau. Ni fyddai hyn yn bodloni'r meini prawf ar gyfer mwy nag ychydig o niwed.
- **A oedd darparu'r gofal iechyd yn ffactor, neu a allai fod wedi bod yn ffactor, a achosodd i'r defnyddiwr gwasanaeth ddioddef mwy nag ychydig o niwed?**
Oedd. Roedd darparu'r gofal iechyd yn ffactor ond ni ddioddefodd y defnyddiwr gwasanaeth fwy nag ychydig o niwed.

Casgliad: Ni chafodd y ddyletswydd gonestrwydd ei sbarduno yn yr achos hwn gan na wnaeth y defnyddiwr gwasanaeth ddiodeff mwy nag ychydig o niwed. Dylid cynnal ymchwiliad o hyd, er mwyn darganfod pam y rhoddwyd y feddyginiaeth anghywir i'r defnyddiwr gwasanaeth yn anfwriadol.

Canlyniad 2: Syrthiodd y defnyddiwr gwasanaeth i gysgu yn y gwaith, a chafodd ei rheolwr air â hi.

A sbardunir y ddyletswydd gonestrwydd?

- **A yw'r defnyddiwr gwasanaeth wedi cael niwed, neu a yw'r amgylchiadau'n golygu y gallai gael niwed, a oedd yn anfwriadol neu'n annisgwyl?**

Ydy. Rhoddwyd y feddyginiaeth anghywir i'r defnyddiwr gwasanaeth yn anfwriadol.

- **A yw'r niwed yn fwy nag ychydig o niwed?**

Nac ydy. Syrthiodd y defnyddiwr gwasanaeth i gysgu yn y gwaith, a chynhaliwyd cyfweiliad disgyblu ar y mater. Ni fyddai hyn yn bodloni'r meini prawf ar gyfer mwy nag ychydig o niwed.

- **A oedd darparu'r gofal iechyd yn ffactor, neu a allai fod wedi bod yn ffactor, a achosodd i'r defnyddiwr gwasanaeth ddiodeff mwy nag ychydig o niwed?**

Oedd. Roedd darparu'r gofal iechyd yn ffactor ond ni ddiodeffodd y defnyddiwr gwasanaeth fwy nag ychydig o niwed.

Casgliad: Ni chafodd y ddyletswydd gonestrwydd ei sbarduno yn yr achos hwn gan na wnaeth y defnyddiwr gwasanaeth ddiodeff mwy nag ychydig o niwed. Dylid cynnal ymchwiliad o hyd, er mwyn darganfod pam y rhoddwyd y feddyginiaeth anghywir i'r defnyddiwr gwasanaeth yn anfwriadol.

Canlyniad 3: Syrthiodd y defnyddiwr gwasanaeth i gysgu wrth yrru gan arwain at anaf atchwipio a difrod i'w cherbyd hi a cherbyd arall.

A sbardunir y ddyletswydd gonestrwydd?

- **A yw'r defnyddiwr gwasanaeth wedi cael niwed, neu a yw'r amgylchiadau'n golygu y gallai gael niwed, a oedd yn anfwriadol neu'n annisgwyl?**

Ydy. Rhoddwyd y feddyginiaeth anghywir i'r defnyddiwr gwasanaeth yn anfwriadol.

- **A yw'r niwed yn fwy nag ychydig o niwed?**

Ydy. O ganlyniad i gymryd y feddyginiaeth a roddwyd yn anghywir, cafwyd sgil effaith dawelyddol ar y defnyddiwr gwasanaeth, a achosodd iddi syrthio i gysgu wrth yrru a chael damwain traffig ar y ffordd, gan arwain at anaf atchwipio. Mae hyn yn bodloni'r meini prawf ar gyfer mwy nag ychydig o niwed.

- **A oedd darparu'r gofal iechyd yn ffactor, neu a allai fod wedi bod yn ffactor, a achosodd i'r defnyddiwr gwasanaeth ddiodeff mwy nag ychydig o niwed?**

Oedd. Roedd darparu'r gofal iechyd yn ffactor gan fod y fferyllfa wedi rhoi'r feddyginiaeth anghywir yn anfwriadol.

Casgliad: Rhoddwyd atebion cadarnhaol i'r tri chwestiwn, felly mae hyn yn sbarduno'r broses dyletswydd gonestrwydd, a dylid dilyn y weithdrefn dyletswydd hyd at ei chwblhau.

Achos 2: Therapi Lleferydd ac Iaith Acíwt

Mae'r disgrifiad o'r digwyddiad yr un fath drwy gydol y broses ond mae'r canlyniadau'n wahanol.

Cynhaliodd therapydd lleferydd ac iaith asesiad o ddefnyddiwr gwasanaeth ar ward trawma ac orthopedig a oedd wedi cael ei atgyfeirio gan y tîm oherwydd arwyddion o ddysffagia a oedd yn gwaethygu ers iddo gael llawdriniaeth ar ôl torri gwddf y ffemwr yn ddiweddar. Dangosodd pelydr-x o'i frest fod ganddo ymsolediad gwaelodol ar yr ochr dde. Roedd yn cael ei drin am niwmonia allsugno a oedd yn datblygu. Sylwodd y therapydd ei bod hi'n anodd cynnal sylw'r defnyddiwr gwasanaeth a'i fod yn ei chael hi'n anodd cydlynu hylifau tenau yn ei geg – gan dueddu i fynd i mewn i'w bibell wynt yn rhy gynnar ac achosi pyliau o besychu. Roedd yn gallu llyncu a chydlynu hylifau mwy gludiog a gweadau deietegol llyfnach yn well. Argymhellodd y therapydd y dylid cynnal treial byrdymor o hylifau Lefel 2 wedi'u tewychu a deiet piwrî llyfn Lefel 4 wrth iddo wella'n llwyr. Trafododd y therapydd ei hargymhellion â'r nyrs staff ac ysgrifennodd yn y nodiadau meddygol ond anghofiodd osod arwydd gwely yn nodi argymhelliad y therapydd uwchben gwely'r defnyddiwr gwasanaeth, sef yr arfer arferol yn y bwrdd iechyd hwn.

Canlyniad 1: Rhoddwyd hylifau tenau a deiet arferol i'r defnyddiwr gwasanaeth ar gyfer ei bryd bwyd nesaf, nes i'r Ymarferydd Cyswllt Therapi Lleferydd ac Iaith sylwi ar yr anwaith wrth ymweld â'r ward a gosod hysbysiad wrth ochr y gwely cyn y pryd bwyd gyda'r nos. Roedd y defnyddiwr gwasanaeth yn dal i ddiodef â'r frest ond ni fu newid sylweddol i'w iechyd yn ôl pob golwg.

A sbardunir y ddyletswydd gonestrwydd?

- **A yw'r defnyddiwr gwasanaeth wedi cael niwed, neu a yw'r amgylchiadau'n golygu y gallai gael niwed, a oedd yn anfwriadol neu'n annisgwyl?**
Ydy. Rhoddwyd yr hylifau a'r gweadau deietegol trwchus i'r defnyddiwr gwasanaeth yn anfwriadol.
- **A yw'r niwed yn fwy nag ychydig o niwed?**
Nac ydi. Roedd y defnyddiwr gwasanaeth yn dal i fod â symptomau niwmonia o ganlyniad i allsugno, ond nid oedd angen ocsigen nac unrhyw gymorth arall arno, ac roedd yn parhau'n sefydlog heb unrhyw ddirywiad sylweddol yn ei iechyd. Ni fyddai hyn yn bodloni'r meini prawf ar gyfer mwy nag ychydig o niwed.
- **A oedd darparu'r gofal iechyd yn ffactor, neu a allai fod wedi bod yn ffactor, a achosodd i'r defnyddiwr gwasanaeth ddiodef mwy nag ychydig o niwed?**
Oedd. Roedd darparu'r gofal iechyd yn ffactor ond ni ddiodefodd y defnyddiwr gwasanaeth fwy nag ychydig o niwed.

Casgliad: Ni chafodd y ddyletswydd gonestrwydd ei sbarduno yn yr achos hwn gan na wnaeth y defnyddiwr gwasanaeth ddiodef mwy nag ychydig o niwed. Dylid cynnal ymchwiliad o hyd, er mwyn darganfod pam y rhoddwyd y deiet a'r hylifau anghywir i'r defnyddiwr gwasanaeth yn anfwriadol.

Canlyniad 2: Parhawyd i roi'r hylifau tenau a deiet arferol i'r defnyddiwr gwasanaeth am y deuddydd nesaf, a diodefodd achos dirifol o dagu. Dioddefodd ataliad anadlol a chafodd ei ddadebru, ond

cafodd hypocsia i'r ymennydd, gan olygu ei fod wedi dioddef niwed gwybyddol mwyfwy difrifol, ei fod wedi aros yn yr ysbyty am gyfnod estynedig a bod ei anghenion iechyd wedi newid, felly bu'n rhaid ei symud o leoliad preswyl i gartref nyrsio.

A sbardunir y ddyletswydd gonestrwydd?

- **A yw'r defnyddiwr gwasanaeth wedi cael niwed, neu a yw'r amgylchiadau'n golygu y gallai gael niwed, a oedd yn anfwriadol neu'n annisgwyl?**

Ydy. Rhoddwyd yr hylifau a'r gweadau deietegol trwchus i'r defnyddiwr gwasanaeth yn anfwriadol.

- **A yw'r niwed yn fwy nag ychydig o niwed?**

Ydy. O ganlyniad i gymryd y deiet a'r hylifau a roddwyd yn anghywir, dioddefodd y defnyddiwr gwasanaeth achos difrifol o dagu, a arweiniodd at anaf hypocsig i'r ymennydd. Mae hyn yn bodloni'r meini prawf ar gyfer mwy nag ychydig o niwed.

- **A oedd darparu'r gofal iechyd yn ffactor, neu a allai fod wedi bod yn ffactor, a achosodd i'r defnyddiwr gwasanaeth ddioddef mwy nag ychydig o niwed?**

Oedd. Roedd darparu'r gofal iechyd yn ffactor gan na wnaeth y therapydd arddangos yr argymhellion llyncu cywir uwchben y gwely, gan olygu na wnaeth aelodau eraill o staff ar y sifft sylweddoli y dylai'r defnyddiwr gwasanaeth fod yn cymryd gweadau deietegol a hylifol wedi'u haddasu. Yn ogystal, ni wnaeth y staff ar y ward gyfathrebu'r cyfarwyddiadau a roddwyd ar lafar ac ni wnaeth staff ddarllen y cyfarwyddiadau a ysgrifennwyd yn y nodiadau meddygol.

Casgliad: Rhoddwyd atebion cadarnhaol i'r tri chwestiwn, felly mae hyn yn sbarduno'r broses dyletswydd gonestrwydd, a dylid dilyn y weithdrefn dyletswydd hyd at ei chwblhau.

Er mwyn osgoi dyblygu, mae cwestiynau'r rhestr wirio i ystyried a gaiff y weithdrefn dyletswydd gonestrwydd ei sbarduno wedi cael eu tynnu o'r astudiaethau achos canlynol.

I'ch atgoffa -

Er mwyn i'r ddyletswydd gonestrwydd gael ei sbarduno, rhaid i'r ateb i bob un o'r tri chwestiwn yn y rhestr wirio fod yn gadarnhaol:

- A yw'r defnyddiwr gwasanaeth wedi cael niwed, neu a yw'r amgylchiadau'n golygu y gallai gael niwed, a oedd yn anfwriadol neu'n annisgwyl?
- A yw'r niwed yn fwy nag ychydig o niwed?
- A oedd darparu'r gofal iechyd yn ffactor, neu a allai fod wedi bod yn ffactor, a achosodd i'r defnyddiwr gwasanaeth ddioddef mwy nag ychydig o niwed?

Mae'r astudiaethau achos canlynol yn enghreifftiau o adegau pan fyddai'r ddyletswydd gonestrwydd yn cael ei sbarduno, a'r un astudiaeth achos gyda chanlyniad gwahanol

Achos 3: Sgrinio'r Coluddyn

Argymhellir y dylai defnyddiwr gwasanaeth gael colonosgopi dan anesthetig cyffredinol. Ni chafodd y defnyddiwr gwasanaeth y colonosgopi o fewn terfynau amser y polisi oherwydd oedi systemig.

Pan ddigwyddodd y colonosgopi o'r diwedd (tua 70 wythnos ar ôl yr argymhelliad gwreiddiol), gwnaed biopsi a ddangosodd amheuaeth o falaen ymledol.

Pan gynhaliwyd y colonosgopi, daeth staff i wybod y bu oedi cyn i'r defnyddiwr gwasanaeth gael y colonosgopi a argymhellwyd.

Daeth yr Ymgynghorydd a'r Tîm Aml-ddisgyblaethol i gonsensws ar sail symptomau, hanes a histoleg fod yr oedi cyn cael diagnosis wedi effeithio ar ddatblygiad a chyfnod y cancer ac felly ar yr opsiynau trin sydd ar gael i'r claf.

A sbardunir y ddyletswydd gonestrwydd?

Byddai'r ddyletswydd gonestrwydd yn cael ei sbarduno yn yr achos hwn a dylid dilyn y weithdrefn dyletswydd gonestrwydd hyd at ei chwblhau gan fod yr oedi cyn cael diagnosis yn effeithio ar ddatblygiad a chyfnod y cancer a'r opsiynau sydd ar gael i drin y claf. Mae'n bosibl y gallai'r defnyddiwr gwasanaeth fod wedi cael triniaeth lai mewnwithiol, pe bai'r ymchwiliadau colonosgopi wedi cael eu cynnal o fewn y terfynau amser a ragnodwyd.

Roedd darparu'r gofal iechyd yn ffactor gan fod oedi cyn cynnal y prawf diagnostig.

Achos 4: Darparu gwasanaethau

Yr un astudiaeth achos – canlyniad gwahanol

Argymhellir y dylai defnyddiwr gwasanaeth gael colonosgopi dan anesthetig cyffredinol.

Dylai'r defnyddiwr gwasanaeth fod wedi cael colonosgopi o fewn yr amserlen a ddymunir, a gytunwyd yn genedlaethol.

Ffoniodd y defnyddiwr gwasanaeth ei feddyg teulu pan nad oedd wedi clywed dim am ychydig wythnosau, ac aeth y meddyg teulu ar drywydd y mater drwy gysylltu â'r rhaglen sgrinio. Roedd apwyntiad wedi'i drefnu ar gyfer colonosgopi yn fuan wedyn, a daethpwyd o hyd i'r cancer, ac roedd modd trin y cancer mewn modd llai ymwithiol, ac ni fyddai wedi digwydd o bosibl pe bai oedi pellach wedi bod.

A sbardunir y ddyletswydd gonestrwydd?

Ni fyddai'r ddyletswydd gonestrwydd yn cael ei sbarduno yn yr achos hwn gan na wnaeth y defnyddiwr gwasanaeth ddioddef mwy nag ychydig o niwed o ganlyniad i weithredoedd y defnyddiwr gwasanaeth a'r meddyg teulu i fynd ar drywydd yr apwyntiad. Rhoddwyd y driniaeth o fewn yr amserlenni a ragnodwyd.

Dylid cynnal adolygiad o hyd, er mwyn darganfod pam na chymerwyd camau dilynol ar gyfer y defnyddiwr gwasanaeth fel mater o drefn.

Canlyniad gwahanol i'r un achos

Aeth dyn 57 oed i'r ysbyty am 17:45 gyda nam ar ei leferydd a gwendid yn ei fraich a ddechreuodd yn sydyn yn dilyn strôc dybiedig. Drwy gynnal sgan CT, gwelwyd anomaledd y gellid ei osgoi drwy thrombectomi. Mae'r gwasanaeth thrombectomi ar waith rhwng 08:00 a 20:00. Cysylltwyd â'r gwasanaeth thrombectomi am 18.30. Ni dderbyniwyd y claf i'w drosglwyddo gan na fyddai wedi cyrraedd mewn pryd. Cafodd y claf nam niwrolegol parhaol.

A sbardunir y ddyletswydd gonestrwydd?

Byddai'r ddyletswydd gonestrwydd yn cael ei sbarduno yn yr achos hwn a dylid dilyn y weithdrefn dyletswydd gonestrwydd hyd at ei chwblhau gan na chafodd y defnyddiwr y driniaeth angenrheidiol i atal nam niwrolegol parhaol, a oedd yn anfwriadol ac a fyddai'n bodloni'r meini prawf ar gyfer mwy nag ychydig o niwed.

Roedd darparu'r gofal iechyd yn ffactor gan nad oedd y gwasanaeth a allai fod wedi atal y nam niwrolegol parhaol ar gael 24 awr y dydd.

Ffoniodd gwraig y dyn 57 oed 999 am 13:00 ac roedd y claf wedi datblygu nam ar ei leferydd a gwendid yn ei fraich a ddechreuodd yn sydyn yn dilyn strôc dybiedig. Cysylltwyd â'r Gwasanaeth Ambiwylans am 13:00 ac ymatebwyd i'r claf, gan gludo'r claf i'r ysbyty erbyn 13:45. Oherwydd problemau capasiti yn yr adran achosion brys, cynhaliwyd y sgan CT 2 awr yn ddiweddarach gan nodi anghysondeb y gellir ei drin drwy thrombectomi.

Mae'r gwasanaeth thrombectomi ar waith rhwng 08:00 a 20:00. Cysylltwyd â'r gwasanaeth thrombectomi am 15:45 a derbyniwyd y claf i'w drosglwyddo am 16.00. Bu oedi pellach wrth drosglwyddo'r claf a chafodd ei drosglwyddo wedyn ar gyfer triniaeth am 18.45, ac roedd y driniaeth yn llwyddiannus. Roedd y driniaeth yn ystod y ffenestr therapiwtig ac yn llwyddiannus er gwaethaf yr oedi.

A sbardunir y ddyletswydd gonestrwydd?

Ni fyddai'r ddyletswydd gonestrwydd yn cael ei sbarduno yn yr achos hwn gan na wnaeth y defnyddiwr gwasanaeth ddioddef mwy nag ychydig o niwed.

Dylid cynnal adolygiad o'r ffordd y cafodd gwasanaethau eu darparu i ddiwallu anghenion y defnyddiwr gwasanaeth o hyd.

Achos 5: Anaf i ben claf mewnlol

Roedd defnyddiwr gwasanaeth i fod i gael ei ryddhau o'r ysbyty yn dilyn llawdriniaeth lwyddiannus i drwsio torllengig. Cyn iddo gael ei ryddhau, cafodd ei ddarganfod ar y llawr wrth ochr y gwely yn y gilfach gan aelod o'r tîm nyrsio. Roedd yn amlwg ei fod wedi cael anaf i'w benglog. Cofnodwyd arsylwadau a nodwyd bod yr arsylwadau niwrolegol yn annormal. Cafodd y defnyddiwr gwasanaeth ei drosglwyddo i gael sgan CT, ac roedd y canlyniadau'n dangos gwaedlif isdwral. Arhosodd y defnyddiwr gwasanaeth yn yr ysbyty am dri mis yn gwella ar ôl y gwaedlif isdwral. Roedd angen cryn dipyn o adsefydlu arno gan nifer o broffesiynau, gan gynnwys therapi galwedigaethol, therapi lleferydd ac iaith a ffisiotherapi am chwe mis arall, a barhaodd ar ôl iddo fynd adref.

A sbardunir y ddyletswydd gonestrwydd?

Byddai'r ddyletswydd gonestrwydd yn cael ei sbarduno yn yr achos hwn a dylid dilyn y drefn dyletswydd gonestrwydd hyd at ei chwblhau am fod y defnyddiwr gwasanaeth wedi dioddef anaf i'w ben ar ôl cael ei ddarganfod ar y llawr wrth ochr ei wely yn yr ysbyty, a oedd yn anfwriadol ac yn annisgwyl.

Cafodd y defnyddiwr gwasanaeth waedlif isdwral, gan olygu y bu'n rhaid iddo dreulio tri mis ychwanegol yn yr ysbyty a bod angen cryn dipyn o adsefydlu gan nifer o broffesiynau, gan gynnwys therapi galwedigaethol, therapi lleferydd ac iaith a ffisiotherapi am chwe mis arall gartref, a fyddai'n bodloni'r meini prawf ar gyfer mwy nag ychydig o niwed.

Roedd darparu'r gofal iechyd yn ffactor gan fod y defnyddiwr gwasanaeth yn glaf mewnlol pan achoswyd y niwed.

Canlyniad gwahanol i'r un achos

Roedd defnyddiwr gwasanaeth i fod i gael ei ryddhau o'r ysbyty yn dilyn llawdriniaeth lwyddiannus i drwsio torllengig. Cyn iddo gael ei ryddhau, cafodd ei ddarganfod ar y llawr wrth ochr y gwely yn y gilfach gan aelod o'r tîm nyrsio. Cofnodwyd arsylwadau a nodwyd bod yr arsylwadau niwrolegol yn annormal. Cafodd y defnyddiwr gwasanaeth ei drosglwyddo i gael sgan CT, ac roedd y canlyniadau'n normal. Parhaodd y defnyddiwr gwasanaeth i gael ei arsylwi'n rheolaidd ac, ar ôl 24 awr, dychwelodd i'r arfer. Arhosodd y defnyddiwr gwasanaeth yn yr ysbyty am 24 awr arall i gael ei fonitro ac wedyn cafodd ei ryddhau o'r ysbyty'n llwyddiannus.

A sbardunir y ddyletswydd gonestrwydd?

Ni fyddai'r ddyletswydd gonestrwydd yn cael ei sbarduno yn yr achos hwn gan na wnaeth y defnyddiwr gwasanaeth ddiodef mwy nag ychydig o niwed.

Dylid cynnal adolygiad o hyd, er mwyn darganfod beth a ddigwyddodd cyn i'r defnyddiwr gwasanaeth gael ei ddarganfod ar y llawr wrth ochr y gwely ag anaf i'w ben.

Achos 6: Rheoli nyrsys

Caiff defnyddiwr gwasanaeth ei dderbyn i'r ysbyty â chnawdnychiant myocardaidd a phenderfynir ei fod yn gymwys i gael arllwysiad o gyfrwng thrombolytig (chwalu clotiau), y mae'n rhaid ei ddechrau ar unwaith er mwyn cael unrhyw fudd. Caiff y feddyginiaeth ei rhoi ar bresgripsiwn, a chaiff yr arllwysiad ei dynnu i mewn i yrrwr chwistrell. Mae nyrs yn cysylltu llinell fewnwythiennol â'r gyrrwr chwistrell ac yn dechrau'r arllwysiad i bara awr.

Mae galwad gan aelod arall o staff yn tynnu sylw'r nyrs cyn iddi orffen paratoi'r arllwysiad.

Awr yn ddiweddarach, mae'r defnyddiwr gwasanaeth yn cael ei adolygu i weld a fu'r arllwysiad yn effeithiol. Yn anffodus, mae'r defnyddiwr gwasanaeth yn teimlo'n waeth ac mae'r nyrs yn sylwi ar bwl o hylif o dan wely'r defnyddiwr gwasanaeth. Ar ôl edrych yn fanylach, gwelir na chafodd y llinell sy'n rhedeg o'r gyrrwr chwistrell ei chysylltu â'r claf a bod yr arllwysiad wedi diferu ar y llawr o dan y claf. Roedd hi'n rhy hwyr i roi triniaeth bellach o fewn y cyfnod o amser ers i'r symptomau ddechrau er mwyn cael y budd mwyaf.

A sbardunir y ddyletswydd gonestrwydd?

Byddai'r ddyletswydd gonestrwydd yn cael ei sbarduno yn yr achos hwn a dylid dilyn y weithdrefn dyletswydd gonestrwydd hyd at ei chwblhau oherwydd bu methiant i gwblhau'r broses o gysylltu'r therapi mewnwythiennol, a arweiniodd at niwed cymedrol yn sgil cnawdnychiant myocardaidd heb ei drin, gan arwain at nam cardiaidd parhaol a disgwyliad oes byrrach, a oedd yn anfwriadol. Byddai hyn yn bodloni'r meini prawf ar gyfer mwy nag ychydig o niwed.

Roedd darparu'r gofal iechyd yn ffactor gan fod y therapi mewnwythiennol yn rhan o gynllun gofal y defnyddiwr gwasanaeth.

Yr un astudiaeth achos – canlyniad gwahanol

Caiff defnyddiwr gwasanaeth ei dderbyn i'r ysbyty â chnawdnychiant myocardaidd a phenderfynir ei fod yn gymwys i gael arllwysiad o gyfrwng thrombolytig (chwalu clotiau), y mae'n rhaid ei ddechrau ar unwaith er mwyn cael unrhyw fudd. Caiff y feddyginiaeth ei rhoi ar bresgripsiwn, a chaiff yr arllwysiad ei dynnu i mewn i yrrwr chwistrell. Mae nyrs yn cysylltu llinell fewnwythiennol â'r gyrrwr chwistrell ac yn dechrau'r arllwysiad i bara awr.

Mae galwad gan aelod arall o staff yn tynnu sylw'r nyrs cyn iddi orffen paratoi'r arllwysiad.

Sylwodd Cynorthwydd Gofal Iechyd, a oedd yn rhoi sylw i anghenion gofal y defnyddiwr gwasanaeth ar y pryd, nad oedd y llinell a oedd yn rhedeg o'r gyrrwr chwistrell wedi cael ei chysylltu â'r defnyddiwr gwasanaeth yn ystyod y 15 munud cyntaf. Hysbyswyd uwch aelod o'r staff a chafodd yr arllwysiad ei ail-lunio a'i ddechrau.

A sbardunir y ddyletswydd gonestrwydd?

Ni fyddai'r ddyletswydd gonestrwydd yn cael ei sbarduno yn yr achos hwn gan fod niwed wedi cael ei osgoi am fod y gweithiwr Cymorth Gofal Iechyd wedi sylwi nad oedd y llinell i'r gyrrwr chwistrell wedi'i chysylltu, ac wedi cymryd y camau priodol i sicrhau bod yr uwch aelod staff yn dechrau'r arllwysiad.

Dylid cynnal adolygiad o hyd, er mwyn darganfod pam na chafodd y llinell a oedd yn rhedeg o'r gyrrwr chwistrell ei chysylltu â'r claf.

Achos 7: Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG

Cafodd aren gan roddwr organau solet o Loegr ei chynnig i glaf trawsblaniad aren o Gymru. Cynhaliwyd prawf Nodweddu Rhoddwr Organau a oedd yn cynnwys canlyniadau profion microbiolegol rheolaidd. Derbyniwyd y cynnig o aren ac wedyn cafodd y defnyddiwr gwasanaeth y trawsblaniad.

Bythefnos yn ddiweddarach, gwelwyd bod un o'r canlyniadau microbioleg wedi'i gofnodi'n anghywir ar gofnod y rhoddwr, gan olygu bod y ganolfan drawsblannu wedi trawsblannu'r aren ar sail y canlyniad anghywir. Rhoddwyd gwybod i'r ganolfan am y camgymeriad. Yn seiliedig ar yr wybodaeth newydd, dechreuwyd rhoi cyffuriau gwrthfeirysol mewnythiennol i'r defnyddiwr gwasanaeth ac roedd angen iddo aros yn yr ysbyty fel claf mewnol am gyfnod estynedig o fwy nag 14 diwrnod.

A sbardunir y ddyletswydd gonestrwydd?

Byddai'r ddyletswydd gonestrwydd yn cael ei sbarduno yn yr achos hwn a dylid dilyn y weithdrefn dyletswydd gonestrwydd hyd at ei chwblhau gan fod y cynnig o aren wedi cael ei dderbyn ar sail gwybodaeth anghywir ac felly ni chafodd triniaeth broffylactig briodol ei dechrau'n brydlon.

Roedd angen i'r defnyddiwr gwasanaeth gael cyffuriau gwrthfeirysol ac aros yn yr ysbyty fel claf mewnol am gyfnod estynedig o fwy nag 14 diwrnod, sy'n bodloni'r meini prawf ar gyfer mwy nag ychydig o niwed.

Roedd darparu'r gofal iechyd yn ffactor oherwydd nodwyd bod un o'r canlyniadau microbioleg wedi'i gofnodi'n anghywir ar gofnod y rhoddwr.

Achos 8: Camgymeriad ochredd

Cynhelir pelydr-X o ffêr dde defnyddiwr gwasanaeth yn lle'r ffêr chwith. Nodwyd bod y delweddau'n normal ac ni ddaethpwyd o hyd i

Canlyniad gwahanol i'r un achos

Cafodd aren gan roddwr organau solet o Loegr ei chynnig i glaf trawsblaniad aren o Gymru. Cynhaliwyd prawf Nodweddu Rhoddwr Organau a oedd yn cynnwys canlyniadau profion microbiolegol rheolaidd. Derbyniwyd y cynnig o aren.

Cyn y trawsblaniad, gwelwyd bod un o'r canlyniadau microbioleg wedi'i gofnodi'n anghywir ar gofnod y rhoddwr, gan olygu bod y ganolfan drawsblannu wedi derbyn yr aren ar sail y canlyniad anghywir. Rhoddwyd gwybod i'r ganolfan am y camgymeriad. Ar sail yr wybodaeth newydd a'r ffaith bod y camgymeriad wedi'i ganfod cyn y trawsblaniad, gallai'r ganolfan wneud penderfyniad ar sail gwybodaeth ynghylch derbyn yr aren a chynllunio unrhyw driniaeth broffylactig fel y bo'n briodol.

A sbardunir y ddyletswydd gonestrwydd?

Ni fyddai'r ddyletswydd gonestrwydd yn cael ei sbarduno yn yr achos hwn oherwydd cafodd y camgymeriad ei ganfod cyn y trawsblaniad ac roedd modd i'r ganolfan wneud penderfyniad ar sail gwybodaeth ynghylch derbyn yr aren a chynllunio unrhyw driniaeth broffylactig fel y bo'n briodol. Felly, nid oedd mwy nag ychydig niwed.

Dylid cynnal adolygiad o hyd, er mwyn darganfod pam y cafodd y canlyniadau anghywir eu cofnodi ar y cerdyn rhoddwr.

Canlyniad gwahanol i'r un achos

Cynhelir pelydr-X o ffêr dde defnyddiwr gwasanaeth yn lle'r ffêr chwith. Nodwyd bod y delweddau'n normal ac ni ddaethpwyd o hyd i

anaf. Parhaodd y defnyddiwr gwasanaeth i brofi poen a cheisiodd gyngor pellach gan ei feddyg teulu, a aeth ati i ddarllen yr adroddiad pelydr-X, darganfod y camgymeriad a chysylltu â'r adran Radioleg. Cynhaliwyd pelydr-X arall a chadarnhawyd anaf i'r ffêr chwith. Oherwydd yr oedi cyn cael diagnosis, roedd angen cynllun gofal gwahanol ar y defnyddiwr gwasanaeth, a oedd yn cynnwys yr angen am lawdriniaeth a thriniaeth ffisiotherapi ddwys.

A sbardunir y ddyletswydd gonestrwydd?

Byddai'r ddyletswydd gonestrwydd yn cael ei sbarduno yn yr achos hwn a dylid dilyn y weithdrefn dyletswydd gonestrwydd hyd at ei chwblhau oherwydd, o ganlyniad i gynnal pelydr-X ar y ffêr anghywir, ni chafodd anaf y defnyddiwr gwasanaeth ei ddarganfod, ac roedd hynny'n anfwriadol.

Oherwydd yr oedi cyn cael diagnosis, roedd angen cynnydd cymedrol yn y driniaeth, roedd y defnyddiwr gwasanaeth mewn poen am gyfnod estynedig ac ni chafodd yr opsiynau triniaeth priodol eu nodi'n brydlon. Mae hyn i gyd yn bodloni'r meini prawf ar gyfer mwy nag ychydig o niwed.

Roedd darparu'r gofal iechyd yn ffactor gan fod y Radiolegydd wedi cynnal pelydr-X ar y rhan anghywir o'r corff.

anaf. Cyn i'r defnyddiwr gwasanaeth adael yr Adran Radioleg, gwiriwyd yr atgyfeiriad a'r adroddiad pelydr-X a sylwyd ar y camgymeriad. Cynhaliwyd pelydr-X arall ar y ffêr chwith, a gadarnhaodd yr anaf. Atgyfeiriwyd y defnyddiwr gwasanaeth at y Clinig Torri Esgyrn a chafodd y driniaeth briodol.

A sbardunir y ddyletswydd gonestrwydd?

Ni fyddai'r ddyletswydd gonestrwydd yn cael ei sbarduno yn yr achos hwn oherwydd cafodd y camgymeriad ei ddarganfod a'i gywiro, a llwyddwyd i osgoi mwy nag ychydig o niwed.

Dylid cynnal adolygiad o hyd, er mwyn darganfod pam y cynhaliwyd pelydr-X ar y ffêr anghywir.

ENGHREIFFTIAU O NIWED A ALLAI DDIGWYDD

Achos 9: Practis optometrïg, gofal clinigol.

Mae llygaid defnyddiwr gwasanaeth yn boenus ac yn goch yn achlysurol ond mae holl ganlyniadau'r archwiliad llygaid o fewn y terfynau normal, gan gynnwys gwasgedd o 11mmHg yn y llygad dde a'r llygad chwith. Mae'r optometrydd yn amau mai llygad sych sy'n achosi'r anghysur ac yn argymhell ireidiau llygad. Yn ddiweddarach y diwrnod hwnnw, mae'r optometrydd yn darganfod bod y tonometr a ddefnyddiwyd yn anghywir: Mae'r optometrydd yn gwirio calibrad y tonometr ac yn darganfod ei fod wedi'i ddifrodi, wedi'i galibro'n anghywir a bod angen ei atgyweirio.

Ar ôl i'r symptomau waethygu, gofynnodd y defnyddiwr gwasanaeth am driniaeth frys y diwrnod canlynol. Cafodd ddiagnosis o gyflwr cau ongl a gwasgeddau o fewn y llygaid o 41 a 45 mmHg.

Roedd angen i'r defnyddiwr gwasanaeth gael cyffuriau systemig er mwyn osgoi colli ei olwg yn barhaol. Ni fyddai'r canlyniad yn hysbys am nifer o wythnosau.

A sbardunir y ddyletswydd gonestrwydd?

Byddai'r ddyletswydd gonestrwydd yn cael ei sbarduno yn yr achos hwn a dylid dilyn y weithdrefn dyletswydd gonestrwydd hyd at ei chwblhau oherwydd gallai'r defnyddiwr gwasanaeth golli ei olwg yn barhaol, ac roedd hynny'n anfwriadol.

Ar ôl cynnal asesiad, gwelwyd bod cyflwr y defnyddiwr gwasanaeth wedi dirywio'n sylweddol. Roedd angen i'r defnyddiwr gwasanaeth gael cyffuriau systemig er mwyn osgoi colli ei olwg yn barhaol. Ni fyddai'r canlyniad yn hysbys am nifer o wythnosau. Mae hyn yn bodloni'r meini prawf ar gyfer mwy nag ychydig o niwed.

Roedd darparu'r gofal iechyd yn ffactor. Pe bai'r offer wedi cael eu calibro'n rheolaidd, mae'n annhebygol y byddai'r camddiagnosis wedi digwydd.

Achos 10: Gwaed a Thrawsblaniadau'r Canlyniad gwahanol i'r un achos GIG

Atgyfeiriwyd trigolyn o Gymru at Ganolfan Drawsblannu yn Lloegr i gael asesiad ar gyfer trawsblaniad iau. Gwnaed yr atgyfeiriad ac aseswyd bod y defnyddiwr gwasanaeth yn addas ar gyfer trawsblaniad iau a chyflwynwyd ei ffurflen gofrestru i wasanaeth Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG er mwyn ei roi ar y rhestr aros am drawsblaniad.

Wrth gofnodi'r cofrestrriad ar y gronfa ddata genedlaethol ar gyfer trawsblaniadau, gwnaed camgymeriad a olygai nad oedd manylion y defnyddiwr gwasanaeth yn ymddangos yn gywir. Ni sylwyd ar y camgymeriad hwn ac, yn dilyn hynny, ni chafodd nifer o gynigion addas ar gyfer iau eu hanfon at y defnyddiwr gwasanaeth. Ar ôl cynnal adolygiad, gwelwyd y byddai o leiaf un o'r cynigion hyn wedi cael ei dderbyn ac y byddai'r defnyddiwr gwasanaeth wedi cael trawsblaniad.

A sbardunir y ddyletswydd gonestrwydd?

Byddai'r ddyletswydd gonestrwydd yn cael ei sbarduno yn yr achos hwn a dylid dilyn y weithdrefn dyletswydd gonestrwydd hyd at ei chwblhau am fod y defnyddiwr gwasanaeth wedi colli nifer o gynigion, gan arwain at oedi cyn iddo gael trawsblaniad iau, a allai arwain at fwy nag ychydig o niwed yn y dyfodol.

Atgyfeiriwyd trigolyn o Gymru at Ganolfan Drawsblannu yn Lloegr i gael asesiad ar gyfer trawsblaniad iau. Gwnaed yr atgyfeiriad ac aseswyd bod y defnyddiwr gwasanaeth yn addas ar gyfer trawsblaniad iau a chyflwynwyd ei ffurflen gofrestru i wasanaeth Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG er mwyn ei roi ar y rhestr aros am drawsblaniad.

Wrth gofnodi'r cofrestrriad ar y gronfa ddata genedlaethol ar gyfer trawsblaniadau, gwnaed camgymeriad a olygai nad oedd manylion y defnyddiwr gwasanaeth yn ymddangos yn gywir. Cafodd y camgymeriad hwn ei ddarganfod yn fuan wedyn a'i gywiro. Yn ystod y cyfnod hwn, ni wnaed unrhyw gynigion addas ac felly ni fu effaith ar y defnyddiwr gwasanaeth.

A sbardunir y ddyletswydd gonestrwydd?

Ni fyddai'r ddyletswydd gonestrwydd yn cael ei sbarduno yn yr achos hwn oherwydd cafodd y camgymeriad ei ddarganfod a'i gywiro, a llwyddwyd i osgoi niwed.

Dylid cynnal adolygiad o hyd, er mwyn darganfod pam y cafodd manylion y defnyddiwr gwasanaeth eu hychwanegu at y gronfa ddata yn anghywir.

Roedd darparu'r gofal iechyd yn ffactor gan fod manylion y defnyddiwr gwasanaeth wedi cael eu cofnodi'n anghywir yn y gronfa ddata genedlaethol ar gyfer trawsblaniadau.

Achos 11: Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG

Atgyfeiriwyd claf o Gymru at Ganolfan Drawsblannu yng Nghymru i gael asesiad ar gyfer trawsblaniad aren. Gwnaed yr atgyfeiriad ac aseswyd bod y claf yn addas ar gyfer trawsblaniad aren a chyflwynwyd ei ffurflen gofrestru i wasanaeth Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG.

Cafodd aren addas ei chynnig i'r defnyddiwr gwasanaeth ond, ar yr adeg honno, gwnaed Gwasanaeth Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG gamgymeriad a gwnaed y cynnig i ddefnyddiwr gwasanaeth gwahanol. Ni sylwyd ar y camgymeriad, gan olygu bod y defnyddiwr gwasanaeth cywir wedi colli cynnig o aren a oedd yn addas.

A sbardunir y ddyletswydd gonestrwydd?

Byddai'r ddyletswydd gonestrwydd yn cael ei sbarduno yn yr achos hwn a dylid dilyn y weithdrefn dyletswydd gonestrwydd hyd at ei chwblhau am fod y defnyddiwr gwasanaeth wedi colli cyfle i gael aren addas a allai arwain at fwy nag ychydig o niwed yn y dyfodol.

Roedd darparu'r gofal iechyd yn ffactor am fod y camgymeriad wedi digwydd yn y prosesau a reolir gan Wasanaeth Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG.

Canlyniad gwahanol i'r un achos

Atgyfeiriwyd claf o Gymru at Ganolfan Drawsblannu yng Nghymru i gael asesiad ar gyfer trawsblaniad aren. Gwnaed yr atgyfeiriad ac aseswyd bod y claf yn addas ar gyfer trawsblaniad aren a chyflwynwyd ei ffurflen gofrestru i wasanaeth Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG.

Cafodd aren addas ei chynnig i'r defnyddiwr gwasanaeth hwn ond, ar yr adeg honno, gwnaed Gwasanaeth Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG gamgymeriad a gwnaed y cynnig i ddefnyddiwr gwasanaeth gwahanol. Sylwyd ar y camgymeriad hwn ôl i'r cynnig gael ei wneud i'r defnyddiwr gwasanaeth anghywir. Tynnwyd y cynnig yn ôl ar unwaith, a chafodd yr aren ei chynnig i'r defnyddiwr gwasanaeth cywir. Wedyn, cafodd yr aren ei thrawsblannu'n llwyddiannus i'r defnyddiwr gwasanaeth cywir.

A sbardunir y ddyletswydd gonestrwydd?

Ni fyddai'r ddyletswydd gonestrwydd yn cael ei sbarduno yn yr achos hwn oherwydd cafodd y camgymeriad ei ddarganfod a'i gywiro, a llwyddwyd i osgoi mwy nag ychydig o niwed.

Dylid cynnal adolygiad o hyd, er mwyn darganfod pam y cafodd manylion y defnyddiwr gwasanaeth eu hychwanegu at y gronfa ddata yn anghywir.

ENGHRAIFFT SY'N CYNNWYS CYMHLETHDODAU O DRINIAETH SY'N HYSBYS AC Y RHODDWDYD CYDSYNIAD AR EU CYFER

Achos 12: Optometreg

Mae defnyddiwr gwasanaeth yn mynd i bractis optometreg i gael prawf llygaid arferol. Mae'r defnyddiwr gwasanaeth yn egluro wrth yr optometrydd ei fod wedi cael symptomau, sef goleuadau'n fflachio a brychau. Mae'r optometrydd yn cynghori bod angen cynnal asesiad gyda channwyll y llygaid ar led. Mae'r defnyddiwr gwasanaeth yn cydsynio i hyn ac mae'r optometrydd yn rhoi'r diferion perthnasol. Mae'r optometrydd yn gwneud diagnosis o ddatgysylltiad lled-hylif o gefn y llygad ac yn rhoi gwybodaeth ysgrifenedig i'r defnyddiwr gwasanaeth am y cyflwr ac yn egluro'r hyn y bydd angen i'r defnyddiwr gwasanaeth ei wneud os bydd ei symptomau'n gwaethygu.

Cysylltodd y defnyddiwr gwasanaeth â'r practis bedair awr yn ddiweddarach yn cwyno bod ei lygad yn goch ac yn boenus dros ben a bod ei olwg yn aneglur. Trefnwyd i'r defnyddiwr gwasanaeth gael ei weld fel argyfwng llygaid fel achos tybiedig o gau prif ongl. Cafodd y defnyddiwr gwasanaeth Iridotomi Laser Perifferol, gan fod achos tybiedig o gau prif ongl yn effeithio arno yn dilyn lledu cannyll y llygaid.

A sbardunir y ddyletswydd gonestrwydd?

Byddai'r ddyletswydd gonestrwydd yn cael ei sbarduno yn yr achos hwn a dylid dilyn y weithdrefn dyletswydd gonestrwydd hyd at ei chwblhau oherwydd roedd angen ymyriad brys ar y defnyddiwr gwasanaeth ar ffurf Iridotomi Laser Perifferol, ac roedd hynny'n anfwriadol. Byddai hyn hefyd yn cael ei ystyried yn gynnydd cymedrol mewn triniaeth ac felly byddai'n bodloni'r meini prawf ar gyfer mwy nag ychydig o niwed.

Roedd darparu'r gofal iechyd yn ffactor am fod yr asesiad gyda channwyll y llygad ar led a'r driniaeth a ragnodwyd wedi cael eu cynnal gan y practis Optometreg.

DS: Mae achos tybiedig o gau prif ongl yn risg hysbys ac, er ei bod yn risg brin, byddai wedi cael ei thrafod fel rhan o'r weithdrefn gydsynio. Mae'r risg o ddigwyddiad niweidiol yn rhan o'r cydbwysedd risg er mwyn penderfynu a yw'r ymchwiliad er budd y claf a sicrhau cydsyniad dilys ar sail gwybodaeth.

Nid yw p'un a gafwyd cydsyniad drwy ddulliau priodol ai peidio yn effeithio ar y ffaith bod y weithdrefn dyletswydd gonestrwydd yn cael ei sbarduno. Mae hyn yn cynnwys cymhlethdodau o driniaeth sy'n hysbys ac y rhoddwyd cydsyniad ar eu cyfer. Mae cofnodi'r digwyddiad ac ymchwilio iddo yn brosesau pwysig y mae angen eu sbarduno, hyd yn oed os canfyddir wedyn fod yr optometrydd wedi gweithredu'n gywir drwy gydol y broses.

ENGHREIFFTIAU SY'N CYNNWYS MWY NAG UN O GYRFF Y GIG

Achos 13: Optometreg ac Offthalmoleg

Mae defnyddiwr gwasanaeth yn mynd i'r practis Optometrig i gael ei brawf llygaid arferol ym mis Medi. Mae'n sôn ei fod i fod i gael ei weld gan y tîm Offthalmoleg yn yr Ysbyty dan y clinig AMD gwlyb arbenigol ym mis Mawrth ond nid yw wedi cael ei weld ac mae ei olwg wedi dirywio'n sylweddol. O ddarllen y cofnodion, mae'n ymddangos bod yr atgyfeiriad wedi cael ei anfon i'r Adran Offthalmoleg yn yr Ysbyty ym mis Mawrth yn unol â'r bwriad. Ar ôl cysylltu â'r Adran Offthalmoleg yn yr Ysbyty, gwelwyd bod yr atgyfeiriad wedi dod i law ym mis Mawrth, ond nid oedd cofnodion pellach i ddweud

pa gamau a gymerwyd. Cadarnhawyd nad oedd apwyntiad wedi cael ei drefnu ar gyfer y defnyddiwr gwasanaeth.

A sbardunir y ddyletswydd gonestrwydd?

Byddai'r ddyletswydd gonestrwydd yn cael ei sbarduno yn yr achos hwn a dylid dilyn y weithdrefn dyletswydd gonestrwydd hyd at ei chwblhau am na chymerodd yr Adran Offthalmoleg yn yr Ysbyty unrhyw gamau, ac felly ni wnaeth yr arbenigwyr ym maes Offthalmoleg asesu'r defnyddiwr gwasanaeth ac mae ei olwg wedi dirywio'n sylweddol, a oedd yn anfwriadol.

Nid yw'n hysbys a oes modd gwrthdroi'r dirywiad neu a allai hyn arwain at golli golwg yn ddi-droi'n-ôl. Mae hyn yn bodloni'r meini prawf ar gyfer mwy nag ychydig o niwed.

Roedd darparu'r gofal iechyd yn ffactor, ond nid mewn perthynas â'r practis Optometrig.

DS: Yn y senario hwn, ystyrir mai'r Adran Offthalmoleg yn yr Ysbyty yw'r 'corff darparu' o ran y ddeddfwriaeth (h.y. roedd neu mae'n bosibl i'r gofal iechyd a ddarperir gan yr Adran sbarduno'r ddyletswydd gonestrwydd) ac felly byddai'n gyfrifol am y broses dyletswydd gonestrwydd, a dylai ddilyn y weithdrefn dyletswydd gonestrwydd hyd at ei chwblhau.

Er bod y practis Optometreg yn rhan o'r cyfnod gofal, nid y practis yw'r 'corff darparu'. Fodd bynnag, efallai y bydd angen iddo gyfrannu at ddarparu gwybodaeth fel rhan o adolygiad neu roi cymorth i'r defnyddiwr gwasanaeth/person sy'n gweithredu ar ei rhan. Disgwylir i bob parti gydweithredu'n llawn mewn modd agored, gan hwyluso'r weithdrefn dyletswydd gonestrwydd drwyddi draw a rhannu unrhyw wersi a ddysgir o ganlyniad i'r adolygiad, gan gynnwys unrhyw gamau sydd i'w cymryd er mwyn atal amgylchiadau tebyg rhag codi yn y dyfodol.

Achos 14: Practis Cyffredinol a Gofal Eilaidd

Ganwyd babi B ar ôl y cyfnod cario, ac mae'n bwydo'n dda. Bythefnos yn ddiweddarach, mae ei fam yn mynd ag ef i weld y meddyg teulu am nad yw'n bwydo'n dda mwyach, nid yw'n magu pwysau ac mae'n ymddangos fel pe bai'n dioddef o glefyd melyn.

Mae'r meddyg teulu yn ei archwilio ac yn dweud bod y clefyd melyn yn ysgafn ac yn gyffredin ymhlith babanod sy'n bwydo ar y fron. Mae'n dweud wrth y fam am ddod yn ôl ymhen ychydig ddyddiau os na fydd ei liw'n gwella.

Ddeuddydd yn ddiweddarach, mae'r fam yn dod â babi B i mewn. Mae'n llipa ac nid yw'n bwydo. Mae'r meddyg teulu'n sylweddoli bod clefyd melyn babi B yn llawer gwaeth nag a feddyliwyd ac y dylai fod wedi cael ei atgyfeirio at y tîm pediatreg lleol. Mae'n anfon y fam a babi B i'r Adran Damweiniau ac Achosion Brys i blant i gael asesiad brys.

Yn yr ysbyty, darganfyddir bod gan babi B grynodiad peryglus o filirwbin yn ei waed a bod angen iddo gael ei dderbyn i'r ysbyty am gyfnod estynedig. Gallai'r crynodiad uchel hwn fod wedi achosi niwed hirdymor i ymennydd babi B.

A sbardunir y ddyletswydd gonestrwydd?

Byddai'r ddyletswydd gonestrwydd yn cael ei sbarduno yn yr achos hwn a dylid dilyn y weithdrefn dyletswydd gonestrwydd hyd at ei chwblhau am na chafodd difrifoldeb cyflwr babi B ei adnabod yn llawn. Yn yr ysbyty, darganfuwyd bod gan babi B grynodiad peryglus o filirwbin yn ei waed a bod angen iddo gael ei dderbyn i'r ysbyty am gyfnod estynedig. Gallai'r crynodiad uchel hwn fod wedi achosi niwed hirdymor i ymennydd babi B. Ystyrir bod hyn yn fwy nag ychydig o niwed.

Roedd darparu'r gofal iechyd yn ffactor, gan fod babi B dan ofal y meddyg teulu, a gynhaliodd archwiliad ac a roddodd gyngor i'r fam.

DS: Yn y senario hwn, cysylltodd y pediatregydd arweiniol â'r meddyg teulu a rhoi gwybod iddo am y canfyddiadau yn dilyn derbyn babi B i'r Adran Damweiniau ac Achosion Brys i blant. Rhoddodd y meddyg teulu wybod am y digwyddiad drwy system Datix Cymru ac arweiniodd hyn at y weithdrefn dyletswydd gonestrwydd. Roedd y meddyg teulu'n gyfrifol am ddilyn y weithdrefn dyletswydd gonestrwydd hyd at ei chwblhau.

Oherwydd yr amgylchiadau, cytunodd y meddyg teulu fod angen i rywun esbonio i'r fam ar unwaith y dylai'r prawf bilirwbin fod wedi cael ei gynnal yn gynharach, ymddiheuro, a dweud wrthi beth allai ddigwydd nesaf. Er y gallai'r naill neu'r llall ohonynt wneud hyn, penderfynwyd y dylai'r pediatregydd siarad â'r fam, gan ei fod yn fwy abl i egluro beth fydd y canlyniadau tebygol i babi B, a beth fydd yn digwydd nesaf yng ngofal babi B.

Ar ôl hynny, trefnodd y feddygfa i weld y fam, ac ymddiheurodd y meddyg teulu'n bersonol i'r fam. Dilynodd y feddygfa'r weithdrefn dyletswydd gonestrwydd hyd at ei chwblhau.

Achos 15: Deintyddiaeth a Fferylliaeth Canlyniad gwahanol i'r un achos

Mae unigolyn sy'n dod i'r practis deintyddol yn rheolaidd yn dod ar gyfer archwiliad chwe mis rheolaidd. Mae'r defnyddiwr gwasanaeth yn gwisgo dannedd gosod uchaf llawn ac mae wedi cadw dannedd yn y bwa isaf. Yn yr archwiliad, mae'r daflod dan orchudd gwyn y gellir ei grafu i ffwrdd ac mae hi'n amlwg bod angen gwella hylendid deintyddol y claf. Gwneir diagnosis o gandidiasis geneuol, a rhoddir presgripsiwn am 50mg o fflwconasol am 14 diwrnod.

Bythefnos ar ôl yr apwyntiad hwn, mae gwraig y defnyddiwr gwasanaeth yn dod i'r practis deintyddol yn bryderus iawn. Bedwar diwrnod yn ôl roedd y defnyddiwr gwasanaeth wedi cael poen difrifol yn y stumog ac wedi mynd i'r Adran Damweiniau ac Achosion Brys. Ar ôl ymchwiliadau canfuwyd bod stumog y defnyddiwr gwasanaeth yn gwaedu ac, ar ôl cynnal profion gwaed, canfuwyd bod ei INR (Cymhareb wedi'i Normaleiddio Ryngwladol) yn 5.2.

Mae unigolyn sy'n dod i'r practis deintyddol yn rheolaidd yn dod ar gyfer archwiliad chwe mis rheolaidd. Mae'r defnyddiwr gwasanaeth yn gwisgo dannedd gosod uchaf llawn ac mae wedi cadw dannedd yn y bwa isaf. Yn yr archwiliad, mae'r daflod dan orchudd gwyn y gellir ei grafu i ffwrdd ac mae hi'n amlwg bod angen gwella hylendid deintyddol y defnyddiwr gwasanaeth. Gwneir diagnosis o gandidiasis geneuol, a rhoddir presgripsiwn am 50mg o fflwconasol am 14 diwrnod.

Y prynhawn hwnnw mae'r practis yn cael galwad ffôn gan y fferyllfa leol. Wrth weinyddu'r presgripsiwn am fflwconasol roedd y fferylllydd wedi croesgyfeirio â'r meddyginiaethau eraill roedd y defnyddiwr gwasanaeth yn eu cael ar bresgripsiwn. Canfuwyd bod y defnyddiwr gwasanaeth wedi cael warffarin ar bresgripsiwn o ganlyniad i ddiagnosis o DVT bedwar mis yn ôl. Mae'n hysbys bod fflwconasol a warffarin yn rhyngweithio sy'n cynyddu effaith wrthgeulol

Dywedodd gwraig y defnyddiwr gwasanaeth wrth y deintydd fod y defnyddiwr gwasanaeth wedi dioddef o DVT (Thrombosis Gwythiennau Dwfn) bedwar mis yn ôl, ar ôl dychwelyd o'i wyliau a'i fod wedi cael ei roi ar warffarin gydag amrediad targed o 1.5-2.5. Canfu'r ysbyty fod y defnyddiwr gwasanaeth wedi cael fflwconasol ar bresgripsiwn sy'n cynyddu effaith wrthgeulol warffarin a'i bod yn debygol bod hynny wedi cynyddu ei INR i 5.2 sy'n beryglus o uchel. Ar ôl edrych ar y nodiadau clinigol, ni ofynnwyd i'r defnyddiwr gwasanaeth am ei hanes meddygol felly collwyd y ffaith ei fod yn cymryd warffarin.

A sbardunir y ddyletswydd gonestrwydd?

Byddai'r ddyletswydd gonestrwydd yn cael ei sbarduno yn yr achos hwn a dylid dilyn y weithdrefn dyletswydd gonestrwydd hyd at ei chwblhau oherwydd dioddefodd y defnyddiwr gwasanaeth achos o waedu o'r stumog ar ôl i'r deintydd roi meddyginiaeth iddo ar bresgripsiwn, ac roedd hynny'n anfwriadol.

Rhoddodd yr achos o waedu o'r stumog fywyd y defnyddiwr y gwasanaeth mewn perygl. Roedd angen iddo gael triniaeth frys ychwanegol a rhagor o ymyriadau, a fyddai'n bodloni'r meini prawf ar gyfer mwy nag ychydig o niwed.

Roedd darparu'r gofal iechyd yn ffactor gan fod y feddyginiaeth wedi cael ei rhagnodi gan y deintydd a'i rhoi gan y fferylllydd.

DS: Yn y senario hwn, byddai'r Deintydd yn rhoi gwybod am y digwyddiad sy'n sbarduno'r weithdrefn dyletswydd gonestrwydd. Byddai'n ofynnol i'r Deintydd ddilyn y weithdrefn hyd at ei chwblhau. Byddai hefyd yn ofynnol i'r Deintydd roi gwybod i'r Fferylllydd, a byddai'n ofynnol iddo yntau hefyd roi gwybod am ddigwyddiad sy'n sbarduno'r weithdrefn dyletswydd gonestrwydd. Byddai'n ofynnol i'r Fferylllydd ddilyn y weithdrefn hyd at ei chwblhau.

warffarin. Nid oedd y fferylllydd wedi rhoi'r presgripsiwn i'r defnyddiwr gwasanaeth.

A sbardunir y ddyletswydd gonestrwydd?

Ni fyddai'r ddyletswydd gonestrwydd yn cael ei sbarduno yn yr achos hwn oherwydd cafodd y camgymeriad ei ddarganfod a'i gywiro, a llwyddwyd i osgoi mwy nag ychydig o niwed. Byddai hwn yn dal i gael ei gofnodi ar Datix Cymru a byddid yn ymchwilio iddo fel digwyddiad lle na ddigwyddodd niwed.

DS: Yn y senario hwn, byddai'r fferylllydd yn rhoi gwybod i'r deintydd am y digwyddiad. Y deintydd fyddai'n gyfrifol am ganfod pam nad oedd yr hanes meddygol a gymerwyd yn ddigonol.

Achos 16: Optometreg

Cysylltodd defnyddiwr gwasanaeth â Phractis Optometreg 1 i wneud apwyntiad, am fod ganddo symptomau, sef goleuadau'n fflachio a brychau, yn ei lygad dde ers 24 awr. Roedd gan y defnyddiwr gwasanaeth hanes o rwyg retinol yn ei lygad chwith sawl blwyddyn yn ôl. Ni wnaed unrhyw frysbenneu ac ni roddodd Practis Optometreg 1 gyngor pellach. Yna cysylltodd y defnyddiwr gwasanaeth â'i feddyg teulu a ddywedodd wrtho am fynd i Bractis Optometreg arall. Gwelodd yr ail Bractis Optometreg y defnyddiwr gwasanaeth y diwrnod canlynol ac fe'i hatgyfeiriwyd ar frys i'r ysbyty oherwydd rhwyg retinol.

A sbardunir y ddyletswydd gonestrwydd?

Byddai'r ddyletswydd gonestrwydd yn cael ei sbarduno yn yr achos hwn a dylid dilyn y weithdrefn dyletswydd gonestrwydd hyd at ei chwblhau oherwydd ni chafodd y defnyddiwr gwasanaeth y cyngor na'r driniaeth briodol gan y Practis Optometreg cyntaf, ac roedd hynny'n annisgwyl. Roedd angen triniaeth frys ar y defnyddiwr gwasanaeth ar gyfer rhwyg retinol, a fyddai'n bodloni'r meini prawf ar gyfer mwy nag ychydig o niwed.

Roedd darparu'r gofal iechyd yn ffactor gan na chafodd y defnyddiwr gwasanaeth y cyngor na'r driniaeth briodol gan y Practis Optometreg cyntaf.

DS: Yn y senario hwn, gallai naill ai'r ail Bractis Optometreg, y meddyg teulu neu'r defnyddiwr gwasanaeth dynnu sylw'r Practis Optometreg cyntaf at y digwyddiad. Byddai'r Practis Optometreg cyntaf yn gyfrifol am roi gwybod am y digwyddiad sy'n sbarduno'r weithdrefn dyletswydd gonestrwydd, a dylid dilyn y weithdrefn hyd at ei chwblhau.

Achos 17: Tri Bwrdd Iechyd ac Ymddiriedolaeth

Gwelodd Bwrdd Iechyd 1 ddefnyddiwr gwasanaeth yn dilyn atgyfeiriad brys ar gyfer amheuaeth o ganser. Cafodd ei atgyfeirio wedyn am farn arbenigol, a chafodd ei weld gan ail Fwrdd Iechyd. Gofynnwyd am farn arbenigol bellach gan drydydd Bwrdd Iechyd. Cafodd y defnyddiwr gwasanaeth driniaeth canser gan Ymddiriedolaeth y GIG. Roedd pob un o'r cyrff hyn o fewn y GIG yn gyfrifol am reoli gofal y defnyddiwr gwasanaeth mewn modd aml-ddisgyblaethol.

Pan adolygwyd y defnyddiwr gwasanaeth gan Ymddiriedolaeth y GIG, roedd yn amlwg bod cynnydd y clefyd wedi gwaethygu rhwng yr atgyfeiriadau. Cytunwyd y byddai modd trin y canser yn gynharach ar daith y defnyddiwr gwasanaeth rhwng y Bwrdd Iechyd cyntaf a'r trydydd Bwrdd Iechyd.

Bu farw'r defnyddiwr gwasanaeth yn nes ymlaen.

A sbardunir y ddyletswydd gonestrwydd?

Byddai'r ddyletswydd gonestrwydd yn cael ei sbarduno yn yr achos hwn a dylid dilyn y weithdrefn dyletswydd gonestrwydd hyd at ei chwblhau gan fod oedi yn llwybr defnyddiwr y gwasanaeth wedi arwain at gynnydd helaeth yng nghlefyd y defnyddiwr gwasanaeth yn yr iau a'r ysgyfaint ac wedyn marw, a fyddai'n bodloni'r meini prawf ar gyfer mwy nag ychydig o niwed.

Roedd darparu'r gofal iechyd yn ffactor gan fod oedi yn llwybr y defnyddiwr gwasanaeth.

DS: Yn y senario hwn, byddai'n ofynnol i bob un o gyrff y GIG a oedd yn ymwneud â llwybr y defnyddiwr gwasanaeth sbarduno'r weithdrefn dyletswydd gonestrwydd a'i dilyn hyd at ei chwblhau.

Dan amgylchiadau o'r fath, byddai'n arfer dda i gyrff y GIG geisio cyfathrebu â'r defnyddiwr gwasanaeth/y sawl sy'n gweithredu ar ei ran i gael y caniatâd priodol, yn unol â GDPR y DU, er mwyn cynnal eu hadolygiadau mewn ffordd gydgyssylltiedig, fel y byddent yn ei wneud ar gyfer unrhyw 'bryder' arall. Y nod ddylai fod gwneud y broses mor hawdd â phosibl i'r rhai dan sylw ac, yn benodol, byddai'n llai beichus i'r defnyddiwr gwasanaeth/ei gynrychiolydd.

Fodd bynnag, mae cyfrifoldeb ar bob corff o fewn y GIG (corff dyfarnu) o hyd o dan y gofynion dyletswydd gonestrwydd a rhaid iddo sicrhau a gallu dangos tystiolaeth ei fod wedi cyflawni'r cyfrifoldeb hwn.

ACHOSION CYFFREDINOL LLE CAIFF Y DDYLETSWYDD GONESTRWYDD EI SBARDUNO

Achos 18: Optometreg ac Offthalmoleg

Roedd defnyddiwr gwasanaeth diabetig wedi datblygu poen yn ei lygad dde. Cafodd ei weld mewn practis Optometreg lle y canfuwyd bod ganddo wasgedd uchel yn y ddau lygad. Atgyfeiriwyd y defnyddiwr gwasanaeth i'r ysbyty. O fewn yr atgyfeiriad nodwyd bod gan y defnyddiwr gwasanaeth wasgedd o 40mmHg yn y llygad dde ac 20mmHg yn y llygad chwith.

Ar ôl hynny, archwiliwyd y defnyddiwr gwasanaeth yn yr ysbyty ac, yn ystod yr apwyntiad hwn, nodwyd bod ganddo wasgedd o 44 yn y llygad dde a 24 yn y llygad chwith. Rhoddwyd diferion llygaid a thabledi acetazolamid ar bresgripsiwn i'r defnyddiwr gwasanaeth, ond nid oedd y tabledi Diamox ar gael yn y fferyllfa.

Aeth y defnyddiwr gwasanaeth i apwyntiad ychydig wythnosau'n ddiweddarach yn yr ysbyty lle cafodd ail bresgripsiwn ar gyfer acetazolamid, a'r bwriad oedd i'r claf gael ei atgyfeirio ar frys i ysbyty trawsffiniol. Fodd bynnag, ni wnaed yr atgyfeiriad tan 10 diwrnod yn ddiweddarach, drwy amryfusedd.

Pan aeth y claf i'r apwyntiad wedyn yn yr ysbyty trawsffiniol, roedd ganddo wasgedd o 34 yn y llygad dde a 19 yn y llygad chwith. Ar ôl hynny, canfuwyd bod y llygad dde yn ddall yn ddi-droi'n-ôl.

A sbardunir y ddyletswydd gonestrwydd?

Byddai'r ddyletswydd gonestrwydd yn cael ei sbarduno yn yr achos hwn a dylid dilyn y weithdrefn dyletswydd gonestrwydd hyd at ei chwblhau oherwydd bu oedi cyn i'r defnyddiwr gwasanaeth gael y driniaeth a'r feddyginiaeth briodol, ac roedd hynny'n anfwriadol ac yn annisgwyl.

Gwelwyd bod y defnyddiwr gwasanaeth yn ddall yn ddi-droi'n-ôl yn y llygad dde, a fyddai'n bodloni'r meini prawf ar gyfer mwy nag ychydig o niwed.

Roedd darparu'r gofal iechyd yn ffactor gan fod camgymeriad a achosodd oedi cyn i'r defnyddiwr gwasanaeth gael y driniaeth a'r feddyginiaeth briodol.

Achos 19: Radioleg

Mae defnyddiwr gwasanaeth yn cwyno bod ganddo boen yn ei wddf ar ôl iddo syrthio. Mae ei feddyg teulu yn ei atgyfeirio i gael pelydr-X. Mae'r radiolegydd yn rhoi gwybod na wnaeth y pelydr-X ddangos unrhyw dorasgwrn na datgymaliad.

Chwe mis yn ddiweddarach, mae'r defnyddiwr gwasanaeth yn dychwelyd at y meddyg teulu gyda pheswch parhaus ac mae wedi bod yn pesychu dafnau bach o waed. Mae ei feddyg teulu yn ei atgyfeirio i gael pelydr-X o'r frest ar frys. Mae radiolegydd ymgynghorol yn dod o hyd i fâs mawr ar ran uchaf yr ysgyfaint dde.

Mae'r radiolegydd ymgynghorol yn edrych ar belydr-X blaenorol y defnyddiwr gwasanaeth. Mae'n nodi bod y mäs i'w weld yn glir, er ei fod yn llai, ar ymyl y ffilm. Cadarnheir mai tiwmor sylfaenol ar yr ysgyfaint sydd wedi metastaseiddio yw'r mäs. Nid yw'n addas ar gyfer llawdriniaeth na therapi imiwn/cemo.

A sbardunir y ddyletswydd gonestrwydd?

Byddai'r ddyletswydd gonestrwydd yn cael ei sbarduno yn yr achos hwn a dylid dilyn y weithdrefn dyletswydd gonestrwydd hyd at ei chwblhau oherwydd canfuwyd bod mäs i'w weld yn glir ar belydr-X a oedd wedi'i gynnal chwe mis ynghynt ond ni chofnodwyd hyn ar y pryd, ac roedd hynny'n anfwriadol.

Roedd y mäs wedi tyfu yn ystod y chwe mis ar ôl y pelydr-X blaenorol. Cadarnhawyd mai tiwmor sylfaenol ar yr ysgyfaint a oedd wedi metastaseiddio oedd y mäs, ac nad oedd yn addas ar gyfer triniaeth wellhaol. Byddai hyn yn bodloni'r meini prawf ar gyfer mwy nag ychydig o niwed.

Roedd darparu'r gofal iechyd yn ffactor gan fod y defnyddiwr gwasanaeth wedi cael ei atgyfeirio i gael pelydr-X, lle y gellir bod wedi darganfod y mäs 6 mis ynghynt, ond ni chyfeiriwyd at hyn yn yr adroddiad ac ymddengys ei fod wedi cael ei fethu.

DS: Yn y senario hwn, mae'r meddyg teulu'n rhoi gwybod am y digwyddiad sy'n sbarduno'r weithdrefn dyletswydd gonestrwydd ac mae'n gyfrifol am ddilyn y weithdrefn dyletswydd gonestrwydd hyd at ei chwblhau.

Achos 20: Mewnosod cathetr

Cafodd cathetr wrinol ei fewnosod yng nghorff defnyddiwr gwasanaeth ar gyfer ataliad dŵr aciwt. Sylwodd y staff fod y defnyddiwr gwasanaeth yn aflonydd ers iddo gael ei fewnosod a'i fod yn mynd yn ôl ac ymlaen i'r tŷ bach, a oedd yn annodweddiadol o'r defnyddiwr gwasanaeth. Eglurodd y defnyddiwr gwasanaeth wrth y staff fod ganddo deimlad o lusgo o'r cathetr wrinol.

Caniataodd y defnyddiwr gwasanaeth i'r staff ei archwilio. Gwelodd y staff fod y rhan honno o'r corff yn waedlyd ac yn goch. Wrth wirio nodiadau'r defnyddiwr gwasanaeth i sicrhau bod y cathetr wrinol cywir wedi cael ei fewnosod, canfuwyd mai cathetr wrinol i fenywod yn unig a oedd wedi cael ei fewnosod yng nghorff y dyn. Mae cathetr menywod yn fyrrach, sy'n golygu bod y swigen gynnal wedi chwyddo yn yr wrethra.

Dioddefodd y defnyddiwr gwasanaeth drawma, poen a gwaedlif wrethrol difrifol. Roedd pryder hefyd ynghylch effeithiau tymor hwy, a oedd yn cynnwys culfannau wrethrol, ataliad dŵr ac anymataliaeth.

A sbardunir y ddyletswydd gonestrwydd?

Byddai'r ddyletswydd gonestrwydd yn cael ei sbarduno yn yr achos hwn a dylid dilyn y weithdrefn dyletswydd gonestrwydd hyd at ei chwblhau oherwydd dioddefodd y defnyddiwr gwasanaeth drawma, poen a gwaedlif wrethrol difrifol. Roedd pryder hefyd ynghylch effeithiau tymor hwy, a oedd yn cynnwys culfannau wrethrol, ataliad dŵr ac anymataliaeth, a byddai pob un ohonynt yn bodloni'r meini prawf ar gyfer mwy nag ychydig o niwed.

Roedd darparu'r gofal iechyd yn ffactor gan fod y ffordd y gosodwyd y cathetr wedi achosi niwed.

Achos 21: Rheolaeth feddygol

Mae defnyddiwr gwasanaeth, sydd ag arllwysiad eisbilennol cymedrol ar yr ochr dde ac sy'n fyr o wynt am fod yr hylif sydd wedi cronni yn atal yr ysgyfaint rhag ehangu'n llawn ar yr ochr honno. Mae'r meddyg ymgynghorol yn gofyn i'r meddyg iau ddraenio'r hylif drwy osod draen yn y frest. Mae'r radiograff o'r frest cyn y driniaeth yn dangos arllwysiad mawr ar yr ochr dde yn glir, ond nid yw'r meddyg yn ailedrych ar y radiograff cyn dechrau'r driniaeth.

Caiff y defnyddiwr gwasanaeth ei baratoi'n anghywir ar gyfer gosod draen ar yr ochr chwith, sy'n golygu glanhau'r croen, rhoi anesthetig lleol a cheisio cadarnhau bod hylif yn bresennol drwy ddefnyddio nodwydd denau. Ni ddefnyddir canllawiau uwchsain ac ni ddaw unrhyw hylif o ochr chwith y frest. Er gwaethaf hyn, mae'r meddyg wedyn yn rhoi roi tiwb trwchus i mewn i ochr chwith y frest, ac eto ni cheir unrhyw hylif. Ar ôl hynny, mae'r meddyg yn tynnu'r draen ac yn dweud wrth y defnyddiwr gwasanaethau ei bod yn amlwg bod yr hylif wedi diflannu ers i'r radiograff gael ei gymryd.

Canfuwyd y digwyddiad ar ôl cynnal ail belydr-X o'r frest i chwilio am unrhyw aer a oedd yn cronni. Rhoddwyd gwybod i'r claf a rhoddwyd y driniaeth gywir iddo.

A sbardunir y ddyletswydd gonestrwydd?

Byddai'r ddyletswydd gonestrwydd yn cael ei sbarduno yn yr achos hwn a dylid dilyn y weithdrefn dyletswydd gonestrwydd hyd at ei chwblhau oherwydd cafodd y draen ei fewnosod yn yr ochr anghywir, ac roedd hyn yn annisgwyl ac yn anfwriadol.

Roedd y defnyddiwr gwasanaeth wedi cael y driniaeth anghywir, a oedd yn gofyn am gynnydd cymedrol mewn triniaeth er mwyn i'r driniaeth gael ei rhoi ar yr ochr gywir. Ystyrid bod hyn yn fwy nag ychydig o niwed.

Roedd darparu'r gofal iechyd yn ffactor gan fod y driniaeth i ddraenio'r frest yn rhan o gynllun gofal y defnyddiwr gwasanaeth.

Achos 22: Rhoi presgripsiwn

Rhoddwyd y dull atal cenhedlu cyfunol drwy'r geg ar bresgripsiwn i fenyw ar ôl iddi gael cadarnhad o thrombosis gwythiennau dwfn (DVT)/emboledd ysgyfeiniol yn flaenorol. Ar ôl cymryd y dull atal cenhedlu drwy'r geg am bedair wythnos, datblygodd y fenyw boen difrifol yng nghroth ei choes ac anawsterau anadlu. Ar ôl ceisio sylw meddygol a chael sgan uwchsain, cafodd ddiagnosis o DVT, a

oedd yn golygu bod angen cynllun gofal gan gynnwys dechrau meddyginiaeth gwrthgeulo, y byddai'n ei chymryd am dri mis o leiaf.

A sbardunir y ddyletswydd gonestrwydd?

Byddai'r ddyletswydd gonestrwydd yn cael ei sbarduno yn yr achos hwn a dylid dilyn y weithdrefn dyletswydd gonestrwydd hyd at ei chwblhau am fod y dull atal cenhedlu cyfunol drwy'r geg wedi cael ei roi ar bresgripsiwn i'r defnyddiwr gwasanaeth ar ôl iddi gael cadarnhad o DVT/emboledd ysgyfeiniol yn flaenorol, ac roedd hynny'n anfwriadol.

Datblygodd DVT ac anawsterau anadlu ar ôl cymryd y dull atal cenhedlu cyfunol drwy'r geg am bedair wythnos. Roedd angen triniaeth ychwanegol arni ar ffurf meddyginiaeth gwrthgeulo, ac mae hyn i gyd yn bodloni'r meini prawf ar gyfer mwy nag ychydig o niwed.

Roedd darparu'r gofal iechyd yn ffactor gan fod y defnyddiwr gwasanaeth wedi cael (a chymryd) y dull atal cenhedlu cyfunol drwy'r geg ar sail cyngor ei meddyg teulu, a fethodd y cofnod yn ei nodiadau ei bod wedi cael cadarnhad o DVT/emboledd ysgyfeiniol yn flaenorol.

Astudiaeth Achos 23: Gwasanaeth Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed

Daeth merch 15 oed i'r Adran Achosion Brys gyda hanes o Hunan-niweidio bwriadol ac iselder am 2.30 am. Roedd oedi o 12 awr cyn dod o hyd i wely addas i'r unigolyn mewn ward iechyd meddwl pobl ifanc. Roedd yn derbyn gofal yn ardal asesu'r Adran Achosion Brys gan staff nyrsio pediatrig yr Adran Achosion Brys ac yn cael ei goruchwyllo gan un Nyrs Iechyd Meddwl Gofrestredig, gyda chynllun goruchwyllo wedi'i asesu ar gyfer risg a oedd yn nodi bod angen goruchwyliaeth arni ar gymhareb 2:1. Yn ystod yr oedi hwn, pan oedd hi'n derbyn gofal yn yr Adran Achosion Brys, mae hi'n llwyddo i ddianc o dir yr ysbyty a chafodd bwl arall o hunan-niweidio bwriadol gan ddefnyddio gwydr i dorri ei harddyrnau.

Mae hyn wedi digwydd oherwydd yr oedi cyn dod o hyd i wely priodol a pheidio'i goruchwyllo'n ddigonol yn yr amgylchedd cywir.

A sbardunir y ddyletswydd gonestrwydd?

Byddai'r ddyletswydd gonestrwydd yn cael ei sbarduno yn yr achos hwn, a dylid dilyn y weithdrefn gonestrwydd i fod wedi'i chwblhau gan fod yr oedi wrth ddod o hyd i wely yn uned iechyd meddwl y person ifanc yn golygu bod y defnyddiwr gwasanaeth yn cael gofal yn yr Adran Achosion Brys yn hytrach na'r amgylchedd cywir lle gellid derbyn triniaeth. Hefyd, ni fodlonwyd lefel yr oruchwyliaeth oedd ei hangen. Dihangodd y defnyddiwr gwasanaeth a thorri ei harddyrnau, a fyddai'n cael ei ystyried yn fwy nag ychydig o niwed. Fe wnaeth defnyddiwr y gwasanaeth hefyd gael niwed seicolegol pellach o geisio lladd ei hun a effeithiodd ar yr asesiad risg a gynhaliwyd gan olygu nad oedd modd dychwelyd defnyddiwr y gwasanaeth i'r cartref maeth yr oedd hi wedi bod yn byw ynddo ers blynyddoedd lawer.

Roedd darparu gofal iechyd yn ffactor gan fod y defnyddiwr gwasanaeth i'w dderbyn am asesiad dan y ddeddf iechyd meddwl fel rhan o'r cynllun gofal.

Astudiaeth Achos 24: Iechyd Meddwl Oedolion

Cafodd defnyddiwr gwasanaeth ei ryddhau o ward derbyn aciwt, yn dilyn ei dderbyn ar gyfer mania a seicosis oedd yn gwaethygu, gyda'r dybiaeth y byddai'r tîm Ymateb i Argyfwng yn cynnal ymweliad cartref o fewn 7 diwrnod. Roedd diffyg cyfathrebu ynghylch beth fyddai'r dilyniant hwn. Cafodd y

defnyddiwr gwasanaeth alwad ffôn yn y bore gan aelod o'r Tîm Ymateb i Argyfwng yn hytrach nag ymweliad dilynol wyneb yn wyneb, ond ni wnaeth y defnyddiwr gwasanaeth ateb y ffôn. Digwyddodd hyn eto drannoeth, ac ni lwyddwyd i gysylltu. Yn yr adolygiad nesaf, a oedd yn ymweliad wyneb yn wyneb, tua 8 diwrnod ar ôl iddo gael ei ryddhau, roedd tystiolaeth o ddirywiad yn Iechyd Meddwl y defnyddiwr gwasanaeth. Roedd y defnyddiwr gwasanaeth wedi bod yn cymryd ei feddyginiaethau yn hwyr gyda'r nos, oedd yn golygu ei fod yn cysgu tan y prynhawn. Roedd yr amseroedd cymryd meddyginiaeth yn cael eu methu'n amlwch ac roedd cyfnodau o ddiffyg cwsg ac aflonyddwch yn amlwg. Cydnabuwyd, pe bai ymweliad wyneb yn wyneb wedi digwydd y tro cyntaf, y byddai wedi darparu asesiad mwy cadarn o iechyd meddwl yr unigolyn, a oedd yn cynnwys ymddangosiad corfforol, rhyngweithio di-eiriau, arwyddion yn yr amgylchedd. Byddai pob un ohonynt wedi cyfrannu at asesiad mwy cyfannol na fyddai wedi bod yn bosibl dros y ffôn. Cydnabuwyd hefyd fod gwarsi i'w dysgu o ran uwchgyfeirio defnyddiwr gwasanaeth nad yw'n ymateb ar y ffôn, a allai fod wedi galluogi i ymyrraeth ddigwydd yn gynharach.

A sbardunir y ddyletswydd gonestrwydd?

Ni fyddai'r ddyletswydd gonestrwydd yn cael ei sbarduno yn yr achos hwn gan mai dirywiad oedd y niwed anfwriadol ac ni fyddai'n cael ei ystyried yn fwy nag ychydig o niwed.

Roedd darparu gofal iechyd yn ffactor gan fod y defnyddiwr gwasanaeth yn cyfeirio at y Cynllun Gofal a Thriniaeth heb y manylion i ddweud bod angen asesiad wyneb yn wyneb a gosododd adolygiad rheolaidd ar gyfer y defnyddiwr gwasanaeth hwn, yn hytrach nag asesiad brys pan na wnaeth y defnyddiwr gwasanaeth ateb y ffôn.

Astudiaeth Achos 25: Iechyd Meddwl Oedolion

Mae defnyddiwr gwasanaeth mewn ardal derbyniadau aciwt iechyd meddwl ac yn dirywio'n gyflym, ac mae'r risg i eraill yn cynyddu, ac felly mae angen ei asesu a'i drosglwyddo i wely Uned Gofal Dwys Seiciatrig. Canlyniad yr atgyfeiriad a'r asesiad ffôn gan dîm yr Uned Gofal Dwys Seiciatrig oedd nad oeddent yn teimlo bod angen gwely Uned Gofal Dwys Seiciatrig ar yr unigolyn, er bod un ar gael. Mae hyn yn arwain at anghytundeb rhwng y 2 Dîm Aml-ddisgyblaethol.

Mae iechyd meddwl y defnyddiwr gwasanaethau'n dirywio eto ac mae'n troi'n gorfforol ymosodol tuag at eraill, gan ymosod yn dreisgar ar glaf arall a'i anafu, ac angen ei ynysu. Bryd hynny, cytunodd tîm yr Uned Gofal Dwys Seiciatrig i'r trosglwyddiad. Parhaodd y cyfnod derbyn dilynol am 6 mis.

A sbardunir y ddyletswydd gonestrwydd?

Byddai'r ddyletswydd gonestrwydd yn cael ei sbarduno yn yr achos hwn, a dylid dilyn y weithdrefn dyletswydd gonestrwydd hyd at ei chwblhau gan fod yr oedi wrth dderbyn y claf yn golygu ei fod yn aros mewn lleoliad anaddas, bod iechyd meddwl y defnyddiwr gwasanaeth wedi dirywio a'i fod yn dreisgar tuag at eraill. Bu'n rhaid defnyddio ymarfer cyfyngol ar ffurf ataliaeth a thawelyddu cemegol, a gellid bod wedi osgoi hyn pe bai wedi cael ei drosglwyddo i Uned Gofal Dwys Pediatrig yn gynt. Yn ogystal, sbardunwyd niwed seicolegol cymedrol wrth i'w ddirywiad bara am fwy na 28 diwrnod.

Roedd darparu gofal iechyd yn ffactor wrth i'r defnyddiwr gwasanaeth gael ei dderbyn dan adran 3 y ddeddf iechyd meddwl ar gyfer triniaeth, a dirywiodd ei gyflwr a olygai bod angen ei drosglwyddo i lefel uwch o ofal, ac ni ddigwyddodd hynny cyn y gallai fod niwed.

Astudiaeth Achos 26: Anableddau Dysgu

Unigolyn sy'n byw yng nghartref y teulu yn y gymuned, sydd wedi cael presgripsiwn am fath gwahanol o gyfarpar codi a chario gan y cynghorydd codi a chario ar sail asesiad risg a gwblhawyd ganddynt. Ni chafodd yr offer hwn ei archebu'n brydlon, ac yn dilyn hynny cafwyd oedi pellach gyda'r gwaith dilynol oherwydd salwch staff. Yn yr adolygiad nesaf, roedd tystiolaeth o ddirywiad yng nghyflwr corfforol y person, ac roedd wedi cwmpo sawl gwaith ac wedi torri ei arddwrn o ganlyniad i ddefnyddio'r hen offer codi a chario gofal a gynlluniwyd yn ystod y cyfnod hwn.

A sbardunir y ddyletswydd gonestrwydd?

Byddai'r ddyletswydd gonestrwydd yn cael ei sbarduno yn yr achos hwn, a dylid dilyn y weithdrefn dyletswydd gonestrwydd hyd at ei chwblhau gan fod yr oedi wrth archebu'r offer a argymhellwyd wedi achosi mwy nag ychydig o niwed i'r defnyddiwr gwasanaeth. Roedd y ddarpariaeth gofal iechyd yn ffactor gan fod y Cydgysylltydd Gofal yn cydnabod methiant i ddarparu'r adnoddau cywir sydd wedi golygu bod y person wedi dioddef niwed.

Astudiaeth Achos 27: Anableddau Dysgu

Cafodd unigolyn o gartref teuluol cymunedol ei feddyginiaeth wrthseicotig hirweithredol drwy bigiad. Cafodd y claf ei dderbyn i ysbyty cyffredinol gan ei fod yn chwydu. Y diwrnod canlynol cafodd y feddyginiaeth ei gweinyddu eto er i'r defnyddiwr gwasanaeth geisio cyfleu dro ar ôl tro ei fod wedi ei chael y diwrnod cynt. Doedd y staff ddim yn ei chredu pan ddywedodd ei bod eisoes 'wedi cael y pigiad', ac ni edrychwyd yn iawn ar y cofnodion. Yn ogystal, roedd trosglwyddiad annigonol ac ni wnaed unrhyw ymdrech i wirio'r hyn a ddywedodd y defnyddiwr gwasanaeth gyda'r cartref cymunedol. Arweiniodd hyn at lefelau gwenwynig 3-5 wythnos yn ddiweddarach a bu farw'r defnyddiwr gwasanaeth.

A sbardunir y ddyletswydd gonestrwydd?

Byddai'r ddyletswydd gonestrwydd yn cael ei sbarduno yn yr achos hwn a dylid dilyn y weithdrefn hyd at y diwedd, gan fod rhoi'r ail feddyginiaeth wrth-seicotig hirweithredol wedi arwain at lefelau gwenwynig a mwy nag ychydig o niwed.

Roedd darparu gofal iechyd yn ffactor gan fod y cydlynnydd gofal a'r ysbyty yn cydnabod methiant i ddarparu'r trosglwyddiad cywir, a methiant gan yr ysbyty i wirio dogfennau ac i wrando ar y defnyddiwr gwasanaeth a gwirio gyda'r cydlynnydd gofal, a arweiniodd at niwed i'r person.

Achos 28: Oncoleg

Roedd dyn 65 oed â chanser datblygedig y coluddyn yn cael ei drin â thri asiant cemotherapi (capecitabin neu asiant sy'n cynnwys 5FU, trifflwridin a tipiracil) ac roedd cydsyniad wedi'i roi i sgil-ffeithiau sy'n cwmpasu'n ofalus rai cyffredin, rhai llai cyffredin a rhai prin, gyda monitro effeithiol ar gyfer gwenwyndra hematolegol.

Cafodd ei dderbyn wedyn i'r adran achosion brys ar ôl datblygu bradycardia, gyda gofal dilynol wedi'i drefnu gan feddyg teulu gyda'r tîm cardioleg. Cafodd ei drin i ddechrau â hylifau a chafodd ei sgrinio am sepsis. Dangosodd prawf ECG 12-arwydd fod arwyddion o floc y galon. Sefydlogodd ei gyflwr, cafodd fynd adref, a dywedwyd wrtho am barhau â'i gemotherapi. Dychwelodd y claf i'r adran frys â bloc calon cyflawn yr oedd angen ei reoli ar frys.

A sbardunir y ddyletswydd gonestrwydd?

Byddai'r ddyletswydd gonestrwydd yn cael ei sbarduno yn yr achos hwn a dylid dilyn y weithdrefn hyd at y diwedd gan fod y defnyddiwr gwasanaeth wedi gorfod cael triniaeth frys i reoli ei galon oherwydd bloc calon cyflawn. Roedd hyn yn sgil-ffaith a oedd yn bresennol, ond parhawyd â'r driniaeth yn hytrach na'i hatal a digwyddodd cardiowenwyndra. Roedd darparu gofal iechyd yn ffactor oherwydd y nodwyd bod cardiowenwyndra wedi digwydd, a pharhawyd â'r driniaeth.

Canlyniad gwahanol i'r un achos

Roedd dyn 65 oed â chanser datblygedig y coluddyn yn cael ei drin â thri asiant cemotherapi (capecitabin neu asiant sy'n cynnwys 5FU, trifflwridin a tipiracil) ac roedd cydsyniad wedi'i roi i sgil-ffeithiau sy'n cwmpasu'n ofalus rai cyffredin, rhai llai cyffredin a rhai prin, gyda monitro effeithiol ar gyfer gwenwyndra hematolegol.

Cafodd ei dderbyn wedyn i'r adran achosion brys ar ôl datblygu bradycardia, gyda gofal dilynol wedi'i drefnu gan feddyg teulu gyda'r tîm cardioleg. Cafodd ei drin i ddechrau â hylifau a chafodd ei sgrinio am sepsis. Dangosodd prawf ECG 12-arwydd fod arwyddion o floc y galon. Ar ôl trafod gyda'r claf, penderfynwyd rhoi'r gorau i'r capecitabin neu'r asiant sy'n cynnwys 5FU oherwydd y sgil-ffaith brin, sef bloc y galon.

A sbardunir y ddyletswydd gonestrwydd?

Ni fyddai'r ddyletswydd gonestrwydd yn cael ei sbarduno yn yr achos hwn gan fod y sgil-ffaith a ddaeth i'r amlwg yn un ddisgwyliedig y cydsyniwyd iddi. Roedd wedi'i hesbonio ac roedd yn cael ei monitro. Daeth y driniaeth i ben pan ddarganfuwyd y sgil-ffaith.